

# CAFFAEL YN Y SECTOR ADDYSG UWCH YNG NGHYMRU

Adroddiad gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru

Cyhoeddwyd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru ac ar gael oddi wrth:

Y Llyfrfa Oriel
18-19 Y Stryd Fawr, Caerdydd,
CF10 1PT
Ffôn 029 2039 5548
Ffacs 029 2038 4347

Argraffwyd ar bapur Greencoat.
Defnyddir 80% ffeibr ail-gylchedig a 20% virgin TCF pulp o goedwigoedd cynaliadwy i gynhyrchu papur Greencoat.

DG Ref: 4337ve

Paratowyd yr adroddiad hwn i'w gyflwyno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Ddeddf Llywodraeth i Gymru 1998.

John Bourn
Archwilydd Cyffredinol Cymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

25 Tachwedd 2004

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn hollol annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol. Mae'n ardystio cyfrifon y Cynulliad a'i gyrff noddedig cyhoeddus cysylltiedig; ac mae ganddo awdurdod statudol i adrodd i'r Cynulliad ar y cynildeb, effeithlonrwydd ac effeithioldeb sydd gan y Cynulliad a'i gyrff cyhoeddus noddedig wrth ddefnyddio eu adnoddau i gyflawni eu gweithrediadau.

Paratowyd yr adroddiad hwn ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru.


Roedd Janice Lawler, Ben Robertson, Dawn Brace a Christian McCracken yn nhîm astudio'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Os am fwy o wybodaeth am Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru cysylltwch â:

Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru
3-4 Plas-y-Parc
Caerdydd
CF10 3DP
Ffôn: 029 2067 8500

e-bost: gillian.body@nao.gsi.gov.uk
ian.summers@nao.gsi.gov.uk
Cyfeiriad safle'r Gwe: http://www.agw.wales.gov.uk/index.htm

Bar code here







# CAFFAEL YN Y SECTOR ADDYSG UWCH YNG NGHYMRU

Paratowyd yr adroddiad gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru

# Cynnwys


Crynodeb Gweithredol 1

Rhan 1

Cefndir 6

Y sector addysg uwch 6

Gwaith blaenorol gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol 10

Cwmpas archwiliad a methodoleg Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru 10

Rhan 2

Mae angen sylfeini cadarnach ar y sector addysg uwch er mwyn adeiladu arfer caffael da 11

A oes gan bob sefydliad strategaeth gaffael? 11


A oes gan gaffael broffil digon uchel ym mhob sefydliad? 13

A oes gan bob sefydliad ddigon o arbenigedd proffesiynol? 15

A oes gan bob sefydliad wybodaeth reoli dda? 16

A oes gan bob sefydliad system mesur perfformiad gadarn? 19

Rôl Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru 21



## Rhan 3


| | |
|---|---|
| Mae gan y sector y potensial i gyflawni arbedion pellach | 22 |
| Cyflwyniad | 22 |
| Gall cydweithredu pellach arwain at well gwerth am arian | 23 |
| Rheoli cyflenwyr a chontractau yn well | 27 |
| Mae'r rhan fwyaf o sefydliadau wedi profi'r farchnad am wasanaethau nad ydynt yn rhai craidd, ond ceir amharodrwydd o hyd i wneud hynny mewn ffordd gynhwysfawr | 31 |
| Caffael cynaliadwy | 33 |
| Gwella'r broses | 35 |


## Atodiad


| | |
|---|---|
| 1 Methodoleg | 37 |
| 2 Ymarfer cymharu prisiau ar gyfer cynnyrch defnyddiadwy | 38 |










# Crynodeb Gweithredol

1 Yn 2002-03, gwariodd y sector addysg uwch yng Nghymru £269 miliwn, sy'n gyfwerth â 36 y cant o'i holl incwm, ar gaffael nwyddau a gwasanaethau. Mae'r sector yn cynnwys 12 o sefydliadau (13 hyd at fis Awst 2004, pan unodd Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru â Choleg Prifysgol Cymru, Caerdydd i ffurfio Prifysgol Caerdydd), gyda phob un ohonynt yn llywodraethu eu hunain ac yn gyfrifol am eu gwaith caffael eu hunain.

2 Cyflwynir canfyddiadau'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn erbyn adroddiad caffael Cynulliad Cymru, sef *Gwell Gwerth Cymru*, a gyhoeddwyd yn 2001, a nododd ei bolisi caffael. Atgyfnerthir hyn gan ei bapur diweddara *Creu'r Cysylltiadau: Darparu Gwasanaethau Gwell i Gymru* wedi'i gyhoeddi ym mis Hydref 2004. Y nod yw gwneud arbedion rheolaidd o dri y cant o gyfanswm gwariant caffael (£120 miliwn y flwyddyn) ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru, drwy gyfres o welliannau i arferion ac adnoddau caffael. Ymhlith y rhain mae gwybodaeth reoli well, cydlynu gweithgarwch caffael, buddsoddi mewn hyfforddiant a darparu gweithwyr proffesiynol medrus, rheoli perfformiad yn well a moderneiddio dulliau caffael.

3 Sefydlwyd Menter Caffael Cymru ym mis Ebrill 2001 a bydd y Cynulliad yn ei hariannu tan fis Mawrth 2005 er mwyn datblygu argymhellion *Gwell Gwerth Cymru*. Derbyniodd y sector addysg uwch yng Nghymru, er nad yw'n rhan ffurfiol o'r sector cyhoeddus, £325 miliwn mewn grantiau gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn 2002-03[1] a disgwylir canran tebyg o arbedion gan gyrff y sector cyhoeddus.

4 Ym mis Medi 2001 cyflwynodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol adroddiad ar gwmpas gwell gwerth am arian ym maes caffael yn y sector addysg uwch yng Nghymru. Yn yr adroddiad hwn asesir y sefyllfa bresennol o ran arferion caffael yn y sector addysg uwch yng Nghymru ac ystyrir cyfleoedd i wella, gan gynnwys y cwmpas ar gyfer arbedion ariannol.

## Canfyddiadau allweddol

5 Mae angen sylfeini cadarn ar bob sefydliad er mwyn sicrhau gwerth am arian o'u gweithgareddau caffael. Bydd yr union drefniadau yn amrywio yn dibynnu ar faint a natur y sefydliad, ond mae angen rhoi rhai agweddau sylfaenol ar arfer da ar waith. Ystyrir y rhain isod, yng nghyd-destun fframwaith llywodraethu'r sector a chanllawiau a gyhoeddwyd gan Fenter Caffael Cymru.

### Strategaethau caffael

6 Mae angen strategaeth gaffael sy'n pennu amcanion a blaenoriaethau, sy'n darparu fframwaith ar gyfer dyrannu adnoddau ac sy'n asesu perfformiad y gweithgarwch caffael ar bob sefydliad. Yn ogystal, mae Menter Caffael Cymru yn argymell y dylai'r strategaeth bennu targed ar gyfer arbedion ariannol o dri y cant o'r gwariant caffael o leiaf, yn unol â *Gwell Gwerth Cymru ac yn awr, Creu'r Cysylltiadau: Darparu Gwasanaethau Gwell i Gymru*. Ar adeg ein harolwg yn 2003, dim ond saith o'r 13 o sefydliadau a nododd fod ganddynt strategaeth gaffael ac ychydig ohonynt a oedd wedi'u datblygu'n ddigonol i ddarparu gweledigaeth ar gyfer y gweithgarwch caffael gyda meysydd a thargedau ar gyfer gwella. O'r saith strategaeth, dim ond dwy a oedd yn cynnwys targedau mesuradwy ac nid oedd yr un ohonynt yn cynnwys targedau ar gyfer arbedion.

### Proffil caffael pob sefydliad

7 Mae angen proffil uchel ar y broses gaffael ym mhob rhan o'r sefydliad, er mwyn sefydlu arfer da mewn ffordd gadarn a sicrhau gwelliannau yn rheolaidd. Canfuom fod gan bob sefydliad gyfarwyddwr ar lefel bwrdd yn gyfrifol am gaffael, fel yr argymhellir yn *Gwell Gwerth Cymru*, ond mewn rhai achosion nid yw'r pennaeth caffael yn uniongyrchol atebol iddo. Hefyd, mae llawer o sefydliadau wedi cymryd camau i godi proffil caffael yn ehangach ymysg eu staff, a'r sefydliadau hynny ag uned gaffael ganolog oedd fwyaf tebygol o fod yn rhagweithiol yn y maes hwn. Fodd bynnag, ceir lle i wella arferion cyflwyno adroddiadau mewn sefydliadau er mwyn sicrhau bod y Bwrdd yn cael ei hysbysu'n rheolaidd ynghylch perfformiad caffael.

1 *Defnyddir blynyddoedd academaidd (yn gorffen 31 Gorffennaf) drwy'r adroddiad hwn oni nodir yn wahanol.*

## Arbenigedd proffesiynol

8 Dim ond 7 o'r 13 o sefydliadau a arolygwyd gennym sydd â swyddog caffael penodedig, sy'n aelod o Sefydliad Siartredig Pwrcasu a Chyflenwi, a gynorthwyir yn y rhan fwyaf o achosion gan dîm pwrcasu bach â lefelau amrywiol o sgiliau a chymwysterau. Ym marn pedwar o'r chwe sefydliad a oedd yn weddill roeddent yn rhy fach i gyfiawnhau cyflogi swyddog caffael, tra'r oedd y ddau arall o'r farn bod y consortiwm pwrcasu yr oeddent yn aelodau ohono yn dileu'r angen am swyddog caffael.

9 Cydnabu adroddiadau blaenorol gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a *Gwell Gwerth Cymru* nad oedd pob sefydliad yn gallu fforddio swyddog caffael penodedig. Yn ei adroddiad ar gaffael yn y sector addysg bellach amcangyfrifodd Archwilydd Cyffredinol Cymru y byddai colegau â dros £3 miliwn o wariant nad yw'n wariant ar gyflogau yn elwa'n ariannol ar swydd o'r fath. Rhagorodd pedwar o'r chwe sefydliad yng Nghymru heb swyddog caffael ar y lefel hon yn 2002-03, gyda rhai ohonynt yn rhagori arni'n sylweddol.

## Gwybodaeth reoli

10 Mae angen i sefydliadau sicrhau bod ganddynt wybodaeth briodol am weithgarwch caffael er mwyn pennu p'un a ydynt yn sicrhau gwerth da am arian. Mae angen i reolwyr, er enghraifft, wybod faint sy'n cael ei wario, gyda phwy ac ar ba nwyddau a gwasanaethau; nifer y cyflenwyr a'u proffil gwariant; y math o gontractau a ddefnyddir a chost y broses brynu. Mae gan y rhan fwyaf o sefydliadau wybodaeth reoli gyfyngedig a chyfyngir ar ei defnydd yn aml gan systemau annigonol ar gyfer casglu a dadansoddi data. Mae hyn yn rhwystro gweithgarwch caffael strategol, er enghraifft, monitro prisiau, rhannu gwybodaeth a nodi cyfleoedd i wneud arbedion. Mae'r rhan fwyaf o sefydliadau yn dal i ddibynnu ar systemau archebu papur sy'n darparu ychydig iawn o wybodaeth benodol am gaffael, er bod rhai sefydliadau wedi dechrau gweithredu prosesu archebu pryniannau awtomataidd, ac mae un sefydliad yn bwriadu gweithredu system e-gaffael lawn erbyn diwedd 2006.

## Systemau mesur perfformiad

11 Ychydig o sefydliadau yn y sector addysg uwch sydd â system mesur perfformiad ffurfiol sy'n cwmpasu amcanion clir, dangosyddion perfformiad cynhwysfawr ac yn cyflwyno adroddiadau rheolaidd i uwch reolwyr. Ni fesurir perfformiad caffael o gwbl gan bum sefydliad, ac mae'r gweddill yn defnyddio amrywiaeth o fesurau yn dibynnu ar y wybodaeth sydd ar gael. Dim ond tri sefydliad sy'n gallu nodi arbedion ariannol heblaw am y rhai a wneir gan eu consortiwm pwrcasu, ac nid oes yr un ohonynt yn pennu targed ffurfiol ar gyfer arbedion. Mae rheolwyr caffael yn amharod i bennu targedau oherwydd maent o'r farn bod arbedion yn anodd i'w mesur o achos diffyg gwybodaeth reoli ddibynadwy a'r ffaith bod targedau yn gallu cosbi'r rhain sydd wedi gwneud cynnydd da eisoes ac felly nid oes lle iddynt wella mwy. Mae Menter Caffael Cymru bellach wedi cynhyrchu model ar gyfer mesur enillion gwerth am arian sy'n darpar u sylfaen gyson am fesur arbedion os cesglir y wybodaeth angenrheidiol.

## Rôl Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

12 Er bod y sefydliadau yn llywodraethu eu hunain, mae'r Cyngor yn atebol i'r Cynulliad dros ddefnyddio'r arian cyhoeddus y mae'r Cynulliad yn ei roi i'r sector. Fel rhan o'i rôl i warchod arian cyhoeddus, mae gwasanaeth archwilio'r Cyngor yn adolygu proses rheoli a llywodraethu pob sefydliad bob tair blynedd, gan gynnal adolygiadau dilynol yn ystod y cyfnod yn y canol. Mae'r Cyngor yn cyfyngu ei rôl o ran materion caffael i roi cymorth ariannol ar gyfer y Grŵp Gweithredu Strategaeth Gaffael Addyg Uwch (Proc HE[2]) ac adolygu arferion caffael sylfaenol ym mhob sefydliad fel rhan o'i adolygiadau cyfnodol. Ni chaiff arbedion ariannol nac agweddau eraill ar berfformiad caffael eu monitro, ac felly ceir risg na chaiff y gwelliannau sy'n ofynnol gan *Gwell Gwerth Cymru* eu gwneud. Nododd sefydliadau arbedion o £1.65 miliwn yn 2001-02, o gymharu â'r £8 miliwn y bydd ei hangen er mwyn cyflawni'r targed o dri y cant a nodir yn *Gwell Gwerth Cymru a Creu'r Cysylltiadau: Darparu Gwasanaethau Gwell i Gymru*.

*2 y grŵp hwn, sy'n rhoi cyngor ar wariant caffael cyfunol prifysgolion a cholegau yn y Deyrnas Unedig.*

# Y potensial i wneud arbedion pellach

## Cydweithio

13 Mae trefniadau cydweithio, yn enwedig y consortia pwrcasu, wedi'u sefydlu'n dda yn y sector a cheir buddiannau posibl sylweddol. Ar hyn o bryd mae contractau'r consortiwm yn cwmpasu nwyddau syml, sef cynnyrch defnyddiadwy yn bennaf, ond ceir digon o gyfle i ehangu cwmpas y cyfanswm gwariant caffael dros y 9.2% a gyflawnir ar hyn o bryd. Yn ogystal mae cyfle i weithio'n agosach gyda sectorau eraill, yn enwedig y sector addysg bellach, gan sicrhau darbodusrwydd maint ar gyfer contractau a gwaith gweinyddol.

## Rheoli cyflenwyr a chontractau yn well

14 Nid yw'r gwaith o reoli cyflenwyr wedi'i ddatblygu, ac nid yw rhai sefydliadau yn dilyn arferion da sylfaenol sy'n cynnwys llunio rhestr o gyflenwyr cymeradwy, gwirio cyflenwyr newydd a chofnodi perfformiad cyflenwyr yn ffurfiol. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o sefydliadau wedi cymryd camau i resymoli cyflenwyr a chydgrynhoi busnes er mwyn sicrhau gwell gwerth am arian, er y gellid gwneud mwy o gynnydd. Yn arbennig, bu'n anodd rheoli achosion o "anwybyddu" contractau, lle gwneir pryniannau y tu allan i'r trefniadau a gymeradwywyd, oherwydd system brynu ddatganoledig a gwybodaeth reoli gyfyngedig.

## Profi'r farchnad

15 Mae'r rhan fwyaf o sefydliadau wedi profi marchnad rhai gwasanaethau nad ydynt yn rhai craidd o leiaf ond mae sawl sefydliad heb wneud hynny oherwydd penderfyniad polisi i gadw rhai gwasanaethau yn fewnol. Lle profwyd y farchnad mae'r canlyniadau wedi bod yn gymysg ac mewn rhai achosion roedd yr opsiwn mewnol yn rhatach neu o ansawdd gwell.

## Caffael Cynaliadwy

16 Cyfraniad caffael at ddatblygiad cynaliadwy yw "caffael cynaliadwy": rhaid i brynwyr gydbwyso nodau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol wrth wneud penderfyniadau. Mewn termau ymarferol, mae hyn yn cynnwys lleihau effaith negyddol amgylcheddol pryniadau, cynyddu argaeledd contractau i fusnesau bach a chanolig eu maint, a hyrwyddo cysylltiadau cymdeithasol drwy wobrwyo cyflenwyr ethegol. Dim ond nifer fach o sefydliadau sydd â pholisiau ffurfiol cynaliadwy ond mae enghreifftiau o ymarfer da yn y sector y gellir eu hymestyn, unwaith bod Menter Caffael Cymru yn rhoi ei harweiniad yn hwyr yn 2004. Gall caffael cynaliadwy ganlyn mewn codiadau tymor byr wrth gael cynhyrchion gwahanol, ond dylai buddion tymor hir gwrthbwyso hyn ac efallai bydd arbedion ariannol o fentrau cysylltiadau megis ceidwad ynni, lleihau gwastraff ac ail-gylchu.

## Gwella prosesau caffael

17 Un maes lle gellid gwneud arbedion posibl yw gostwng costau gweinyddol sy'n gysylltiedig â chaffael nwyddau a gwasanaethau. Gellir gwneud yr arbedion mwyaf yn y maes gweinyddol drwy gyflwyno system brosesu electronig fel yr argymhellir yn *Gwell Gwerth Cymru*. Nid yw'r defnydd o systemau electronig ym maes caffael addysg uwch wedi'i ddatblygu. Byddai systemau o'r fath yn arwain at fuddiannau sylweddol gan gynnwys mwy o reolaeth dros weithgarwch prynu, costau is a gwybodaeth reoli well.







# Argymhellion

Mae'r adroddiad yn gwneud cyfanswm o 19 o argymhellion, ac mae'r mwyafrif ohonynt wedi'u cyfeirio at y sefydliadau ac mae'r gweddill yn ymwneud â'r Cygor.

## Ar gyfer y Cyngor

Argymhellwn y dylai'r Cyngor:

(i) cytuno ar strategaeth glir ar gyfer cyflawni'r targedau o ran arbedion a nodir yn *Gwell Gwerth Cymru* a *Creu'r Cysylltiadau: Darparu Gwasanaethan Gwell i Cymru* gyda'r sector;

(ii) monitro'r broses o weithredu'r strategaeth a dal y sefydliadau yn gyfrifol am eu perfformiad caffael;

(iii) gweithio gyda'r sefydliadau i sicrhau unrhyw welliannau i systemau ac arferion caffael sydd eu hangen i gyflawni a chofnodi'r arbedion targed; a

(iv) cynorthwyo'r gwaith o ehangu'r consortia pwrcasu yn seiliedig ar strategaeth gytûn ar gyfer y sector sy'n ymgorffori'r prif dargedau ac argymhellion yn *Gwell Gwerth Cymru* a *Creu'r Cysylltiadau: Darparu Gwasanaethau Gwell i Gymru*. Lle y bo angen, dylai'r Cyngor ystyried rhoi cymorth ariannol i'r consortia yn seiliedig ar dargedau cytûn a chydweithio â grwpiau eraill yn effeithiol er mwyn sicrhau'r ffordd fwyaf effeithlon o ddyrannu adnoddau gweinyddol.

## Ar gyfer sefydliadau

Argymhellwn y dylai:

(v) pob sefydliad ailystyried eu strategaethau caffael neu, os nad oes ganddynt strategaeth o'r fath, dylid datblygu un, yn sgîl canllawiau sy'n bodoli eisoes. Dylai'r strategaeth gynnwys targedau mesuradwy y pennir dyddiad ar eu cyfer, yn cynnwys arbedion ariannol;

(vi) uwch reolwyr a chorff llywodraethu sefydliadau adolygu perfformiad eu gweithgarwch caffael yn rheolaidd, drwy drefniadau cyflwyno adroddiadau ffurfiol, er mwyn llywio eu penderfyniadau strategol ac er mwyn sicrhau gwerth am arian;

(vii) uwch reolwyr adolygu eu strwythur trefniadol er mwyn sicrhau bod y rheolwr caffael, lle bynnag y bo'n ymarferol, yn uniongyrchol atebol i'r cyfarwyddwr gweithredol sy'n gyfrifol am gaffael;

(viii) pob sefydliad ystyried, yn unigol neu gyda'i gilydd, gost effeithiolrwydd penodi swyddog caffael penodedig a sicrhau y defnyddir eu harbenigedd ar draws yr amrywiaeth o wariant cyfalaf a gwariant cyfredol;

(ix) sefydliadau sicrhau bod eu gwybodaeth reoli wedi'i datblygu'n ddigonol i ddarparu gwybodaeth sylfaenol am gyflenwyr, trafodion pryniannau a chostau prosesau. Bydd hyn, yn ei dro, yn hwyluso'r gwaith o bennu, cyflawni a monitro arbedion gydag amser o fewn y sector addysg uwch;

(x) pob sefydliad ddatblygu system rheoli perfformiad gadarn a chytbwys â thargedau mesuradwy y pennir dyddiad ar eu cyfer, yn cynnwys targedau arbedion amlwg. Dylid cyflwyno adroddiadau ar berfformiad yn erbyn amcanion yn rheolaidd i'r uwch reolwyr;

(xi) Consortiwm Pwrcasu Addysg Uwch Cymru wneud mwy o ymdrech i ehangu cwmpas contractau'r consortiwm a chyflwyno contractau newydd, yn seiliedig ar ddyfarniadau hyddysg ynghylch y posibilrwydd o wneud arbedion ariannol a buddiannau nad ydynt yn rhai ariannol. Dylai hyn gynnwys cydweithio'n agosach â chonsortia eraill i sicrhau darbodusrwydd maint wrth drefnu contractau a gweinyddu contractau;

(xii) sefydliadau barhau i gydweithio ar lefel leol a thrwy'r DU, ac ehangu ar arferion cydweithio o'r fath lle ceir achos amlwg dros wneud hynny, er enghraifft drwy rannu arbenigedd â sefydliadau llai, contractau ar y cyd a lledaenu arfer da. Dylai hyn gynnwys cydweithrediad â sectorau eraill lle bo'n briodol;

(xiii) sefydliadau gynnal neu ddatblygu system rheoli cyflenwyr briodol. Dylai gynnwys cronfa ddata o gyflenwyr cymeradwy, gwirio cyflenwyr newydd yn briodol a llunio system ffurfiol ar gyfer monitro perfformiad cyflenwyr;

(xiv) sefydliadau barhau â'u hymdrechion i resymoli eu cyflenwyr, tra'n sicrhau bod contractau yn cael eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn werth am arian;


(xv) sefydliadau wneud y defnydd gorau o'r strwythur gostyngiadau a negodwyd ganddynt ar gyfer contractau nwyddau, gan gymryd camau ymarferol i gynyddu'r defnydd o eitemau craidd;


(xvi) sefydliadau, lle y bo'n briodol, ystyried buddiannau gweithio mewn partneriaeth gyda chyflenwyr allweddol ynghyd â chydweithio hirdymor arall;

(xvii) sefydliadau ddatblygu rhaglen o adolygiadau gwerth gorau ar gyfer gwasanaethau nad ydynt yn rhai craidd, a allai arwain at brofi'r farchnad yn llawn, fel rhan o'u strategaethau caffael. Dylid seilio hyn ar y dystiolaeth sydd ar gael ar fuddiannau tebygol profi'r farchnad ar gyfer y gwasanaethau a ystyriwyd;

(xviii) sefydliadau ystyried datblygu cynaliadwy yn eu strategaethau caffael a datblygu camau ymarferol i ddatblygu caffael cynaliadwy, yn seiliedig ar y canllawiau sydd ar gael ac arfer da; a

(xix) sefydliadau adolygu eu systemau prosesu gyda'r nod o awtomeiddio trafodion yn fwy rheolaidd lle bo hyn yn gost effeithiol.







## Y DARLUN MAWR

Ym mis Medi 2001 cyhoeddodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ei chanfyddiadau ar gaffael yn y Sector Addysg Bellach yng Nghymru, a rhoddwyd y manylion hynny i'r sector addysg uwch. Ar yr adeg honno nodwyd bod angen gwneud mwy o gynnydd er mwyn sicrhau bod gan bob sefydliad addysg bellach strategaethau a oedd wedi'u datblygu'n dda ynghyd â'r gallu i fanteisio ar yr arbenigedd sydd ei angen i gyflawni gwelliant a'r systemau gwybodaeth reoli i lywio penderfyniadau a monitro cynnydd. Ein canfyddiadau ar gaffael yn y sector addysg uwch oedd bod perfformiad yn gymysg, gyda meysydd o arfer da, yn enwedig mewn rhai sefydliadau mwy o faint a rhai trefniadau sefydlog ar y cyd sydd wedi bod o fudd i'r sector, yn ogystal â helpu mentrau ehangach. Serch hynny, siomedig yw'r ffaith nad oes mwy wedi'i wneud yn ystod y cyfnod yn y canol, oherwydd nid oes gan rai o'r sefydliadau y sylfeini i sicrhau proses gaffael well ac mae llawer o'n hargymhellion sy'n ymwneud â gwendidau mewn perfformiad yr un fath â'r rhai a amlygwyd yn 2001.

Mae'r sefydliadau yn gyrff sy'n rheoli eu hunain ac yn y pen draw hwy sy'n gyfrifol am sicrhau gwerth am arian eu trefniadau caffael. Fodd bynnag, rhoddodd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru grantiau gwerth tua £325 miliwn i'r sector yn 2002-03 ac mae'n gyfrifol am sicrhau y cyflawnir gwerth am arian o ran arian cyhoeddus, drwy'r memorandwm ariannol gyda phob sefydliad. Felly mae'n rhaid i'r Cyngor fod yn fwy rhagweithiol wrth hyrwyddo gwelliannau mewn trefniadau caffael a argymhellir gan Fenter Caffael Cymru. Mae hyn yn hanfodol o ran yr arbedion targed o dri y cant y flwyddyn a bennwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn *Gwell Gwerth Cymru* a wedi'i atgyfnerthu gan *Creu'r Cysylltiadau: Darparu Gwasanaethau Gwell i Gymru*. Er bod rhai arbedion yn cael eu gwneud, ar hyn o bryd nid oes unrhyw un yn gyfrifol am y targed hwn yn y sector addysg uwch ac o ganlyniad ceir perygl difrifol na fydd yn cael ei gyflawni.

# 1 Cefndir

## Y sector addysg uwch


1.1 Ceir 12[3] o sefydliadau addysg uwch yng Nghymru, sy'n darparu cyrsiau llawn amser a rhan amser ar gyfer dros 121,000 o fyfyrwyr. Yn 2002-2003 gwariwyd cyfanswm o £269 miliwn ganddynt ar nwyddau a gwasanaethau **(Ffigur 1)**, yn amrywio o £66.4 miliwn ym Mhrifysgol Cymru Caerdydd i £2.1 miliwn yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru **(Ffigur 2)**. Ariennir y sefydliadau yn bennaf gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (y Cyngor), Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad a sefydlwyd yn 1992 i weinyddu gwaith cyllido addysg uwch y Cynulliad Cenedlaethol. Mae'r Cyngor yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol dros y defnydd o'i arian, ac mae memorandwm ariannol rhwng y Cyngor a phob sefydliad yn nodi'r telerau a'r amodau ar gyfer darparu arian. Mae'r Cyngor yn adolygu trefniadau llywodraethu pob sefydliad yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn dilyn y memorandwm ac arfer da wrth gynnal eu busnes. Mae hyn yn cynnwys asesu arferion caffael.

1.2 Mae'r term 'caffael' yn cwmpasu'r broses gyfan o gaffael nwyddau a gwasanaethau gan drydydd partïon. Mae'n cynnwys nodi'r hyn sydd ei angen, pennu gofynion, ymchwilio i'r farchnad, dyfarnu contractau, archebu cynnyrch, prosesu anfonebau a monitro perfformiad cyflenwyr. Gellir sicrhau gwerth am arian gwell wrth gaffael drwy leihau'r amser a gymerir i brynu ac, felly, lleihau'r gost o wneud hynny drwy symleiddio prosesau, lleihau cyfanswm pris nwyddau a gwasanaethau neu wella eu hansawdd heb godi eu pris. Gall gweithgarwch caffael a reolir yn dda nodi meysydd lle gellir gwneud arbedion o ran prisiau a phrosesau gwell, a gall leihau'r risg o berfformiad gwael drwy gyngor a chymorth arbenigol.

**1 Gwariant gan sefydliadau addysg uwch yng Nghymru ar gyfer 2002-03**

| | £000 (2002-03) | % y cyfanswm |
|---|---|---|
| Costau staff (cyflogau, pensiynau a chyfraniadau nawdd cymdeithasol ar gyfer staff a gyflogir yn uniongyrchol) | 418,860 | 57.2 |
| **Gwariant nad yw'n wariant ar gyflogau** | **268,730** | 36.7 |
| Llog a dibrisiant | 44,614 | 6.1 |
| **Cyfanswm** | **732,204** | **100** |

Mae gwariant sy ddim yn cael ei glustnodi ar gyflogau yn cael ei wario ar y swyddogaethau canlynol:




*Ffynhonnell: Y Cyngor*


3 *12 o sefydliadau o fis Awst 2004 pan unodd Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru (CMPC) â Phrifysgol Cymru, Caerdydd i ddod yn Brifysgol Caerdydd.*

## Mae pob sefydliad addysg uwch yn gyfrifol am eu prosesau caffael eu hunain ond mae trefniadau ar y cyd i fanteisio i'r eithaf ar adnoddau a phŵer pwrcasu

1.3 Mae pob sefydliad addysg uwch yn llywodraethu eu hunain ac yn gyfrifol am gaffael nwyddau a gwasanaethau eu hunain, o fewn fframwaith o reoliadau a pholisïau ariannol a gymeradwyir gan gorff llywodraethu'r sefydliad. Serch hynny, mae'r sefydliadau yn cydweithio â'i gilydd ar faterion caffael mewn sawl ffordd, yn bennaf drwy gymryd rhan yn:

- y **consortiwm pwrcasu**, lle mae sefydliadau yn rhannu eu pwerau prynu a'u hadnoddau gweinyddol yn wirfoddol er mwyn dyfarnu contractau y gall pob aelod eu defnyddio;

**2** Gwariant nad yw'n wariant ar gyflogau yn ôl sefydliadau addysg uwch unigol yng Nghymru ar gyfer 2002-03





*Ffynhonnell: Y Cyngor*



- y **Grŵp Gweithredu Strategaeth Gaffael Addysg Uwch (Proc HE)**, sy'n rhoi cyngor ar wariant caffael cyfunol prifysgolion a cholegau yn y Deyrnas Unedig (dros £4 biliwn y flwyddyn). Mae'r grŵp hwn yn cynnwys aelodau sy'n swyddogion caffael ac yn gyfarwyddwyr cyllid mewn sefydliadau ynghyd â chynrychiolwyr Cynghorau Cyllido Addysg Uwch y Deyrnas Unedig, Cynghorau Ymchwil a chonsortia pwrcasu. Bydd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn cyfrannu cyfanswm o £150,000 ar gyfer y tair blynedd hyd at 31 Gorffennaf 2006, gan ddisgwyl bod Proc HE yn ariannu ei hun ar ôl hynny; a
- **Menter Caffael Cymru**, a sefydlwyd yn 2001 gan Lywodraeth y Cynulliad i hybu gwelliannau ym maes caffael ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru. Caiff y Fenter ei gweinyddu gan dîm bach yn Abertawe, gyda chymorth arbenigwyr caffael drwy'r sector cyhoeddus.

Dangosir y sefydliadau allweddol sy'n gyfrifol ac yn atebol am gaffael yn y sector addysg uwch yn **Ffigur 3** isod.

**3 Cyfrifoldeb ac atebolrwydd dros gaffael yn y sector addysg uwch yng Nghymru**




*Ffynhonnell: Y Cyngor*

## Mae *Gwell Gwerth Cymru* yn mynnu arbedion gwerth isafswm o dri y cant y flwyddyn yn y sector cyhoeddus

1.4 Nodir polisi Llywodraeth y Cynulliad ar gaffael yn *Gwell Gwerth Cymru*[4] sef adroddiad a gomisiynwyd gan y Gweinidog Cyllid ym mis Ebrill 2000 i archwilio caffael ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru. Ystyriodd yr adolygiad eang hwn o gaffael yr adroddiadau canlynol sef *Review of Civil Procurement in Central Government* (Adroddiad Gershon, 1999) ac *Efficiency in Civil Government Procurement* (Adroddiad PX) a gyhoeddwyd gan y Trysorlys a Swyddfa'r Cabinet yn 1998. Daeth yr adroddiad, a gyhoeddwyd yn 2001, i'r casgliad y dylai'r sector cyhoeddus cyfan yng Nghymru anelu at wneud arbedion rheolaidd o dri y cant, sy'n gyfwerth â £90 miliwn y flwyddyn, erbyn 2003-4. Seiliwyd hyn ar arbedion a brofwyd a wnaed gan gyrff cyhoeddus eraill yn y DU fel Asiantaeth Gaffael Llywodraeth Gogledd Iwerddon. Cynigiodd hefyd y dylid dal gafael ar arbedion er mwyn eu hailfuddsoddi yn y sector cyhoeddus. Y ddwy thema allweddol yn yr argymhellion hyn oedd y cwmpas i elfennau gwahanol o'r sector cyhoeddus gydweithio ar gaffael, gan gynyddu eu pŵer pwrcasu'n sylweddol, a'r angen am fwy o arbenigedd ymhlith y staff â chyfrifoldebau caffael. Yn ogystal, mae Cronfa Adfywio a Chydweithio'r Cyngor, a gafodd ei lansio i ategu strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer y sector addysg uwch, yn annog sefydliadau i gydweithio ar faterion gweinyddol yn ogystal â materion academaidd er mwyn sicrhau gwelliannau a fydd yn helpu i leihau gorbenion gweinyddol y sector.[5]

1.5 Sefydlwyd tîm Menter Caffael Cymru ym mis Ebrill 2001 a bydd yn cael ei ariannu gan y Cynulliad tan fis Mawrth 2005 er mwyn gweithredu'r argymhellion yn *Gwell Gwerth Cymru* **(Ffigur 4)**. Hyd yn hyn mae'r tîm wedi nodi arbedion posibl o £19.6 miliwn ar draws y sector cyhoeddus cyfan yng Nghymru[6]. Mae wedi cynnal sawl prosiect peilot, gan gynnwys gwaith ar system mesur arbedion a cherdyn pwrcasu Cymru gyfan. Mae'r prosiectau hyn wedi sicrhau cymorth nifer o sefydliadau addysg uwch ond nid yw'r argymhellion sy'n deillio o waith y tîm yn ofynnol.

**4** Cynigiodd *Gwell Gwerth Cymru* welliannau mawr i'r ffordd y dylai'r sector cyhoeddus yng Nghymru gaffael nwyddau a gwasanaethau

| Canfyddiadau allweddol | Prif Argymhellion |
|---|---|
| ■ Dim diffiniad cyffredin o gaffael | ■ Mabwysiadu diffiniad cyffredin o gaffael, er mwyn cwmpasu pob agwedd ar gaffael nwyddau a gwasanaethau gan drydydd partïon a phob cam o'r broses |
| ■ Diffyg gwybodaeth reoli ar yr hyn a gaiff ei wario a chyda phwy | ■ Llunio methodoleg cyffredin i ddarparu gwybodaeth roli am berfformiad caffael |
| ■ Mae gweithgarwch caffael, gyda rhai eithriadau, yn rhanedig heb fod angen | ■ Rhannu gwybodaeth i nodi'r contractau a'r arferion masnachol gorau<br>■ Nodi a hwyluso trefniadau cytundebol ar draws y sector er mwyn sicrhau'r pwer pwrcasu gorau posibl tra'n sicrhau'r amhariaeth leiaf bosibl ar yr amgylchedd |
| ■ Diffyg buddsoddi digonol ym maes hyfforddiant a datblygiad sgiliau masnachol | ■ Buddsoddi mewn hyfforddi a datblygu pobl sy'n ymwneud â gweithgareddau masnachol |
| ■ Yn rhy aml mae'r nifer bach o weithwyr proffesiynol yn ymgymryd â gwaith ag iddo ychydig o bwysigrwydd strategol | ■ Sefydlu canolfan i ddarparu cyngor, canllawiau a chymorth arbenigol o safon uchel |
| ■ Weithiau ceir amharodrwydd i herio diwylliant y gweithlu a gyflogir yn uniongyrchol, hyd yn oed ar gyfer gweithgarwch nad yw'n weithgarwch craidd | ■ Cymhwyso egwyddorion gwerth gorau ar gyfer gwasanaethau nad ydynt yn rhai craidd drwy eu gwneud yn ddarostyngedig i broses "ymgynghori, cymharu, herio a chystadlu" |
| ■ Ni cheir system mesur perfformiad caffael ac ychydig o enghreifftiau a geir o feincnodi perfformiad caffael | ■ Sicrhau bod gan bob corff yn y sector cyhoeddus strategaeth gaffael, a gaiff ei hadolygu'n flynyddol gan eu Byrddau<br>■ Datblygu system mesur perfformiad caffael archwiliadwy |
| ■ Mae angen moderneiddio gweithgarwch caffael ar fyrder drwy ddatblygu e-fasnach, rhannu a mabwysiadu'r technegau caffael gorau | ■ Datblygu strategaeth i weithredu e-gaffael ac e-fasnach<br>■ Ehangu'r defnydd arferol o gardiau caffael a systemau talu awtomataidd |
| ■ Gallai arfer caffael gwell hybu cynnydd busnesau bach a chanolig eu maint ynghyd â hybu datblygiad cynaliadwy | ■ Cynorthwyo datblygiad economi fwy cystadleuol ac amrywiol drwy helpu busnesau bach a chanolig eu maint i gael mynediad i'r farchnad caffael cyhoeddus<br>■ Lleihau'r effaith ar yr amgylchedd yn sylweddol drwy effeithlonrwydd adnoddau ac annog y defnydd o nwyddau a gwasanaethau sy'n ystyriol o'r amgylchedd |

*Ffynhonnell: Gwell Gwerth Cymru*

4 *Gwell Gwerth Cymru: Yr Adolygiad o Gaffael yn y Sector Cyhoeddus yng Nghymru, sef adroddiad ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Chwefror 2001.*
5 *Ymgeisio yn Uwch - Addysg Uwch a'r Wlad sy'n Dysgu. Strategaeth ar gyfer y sector Addysg Uwch yng Nghymru.*
6 *Adroddiad Blynyddol Menter Caffael Cymru 2003.*

1.6 Cofnododd y sector addysg uwch yng Nghymru arbedion ariannol gwerth £1.65 miliwn yn sgîl ei weithgarwch caffael yn 2001-02, sef tua 21 y cant o'r £8 miliwn y mae angen iddo anelu ati er mwyn cyflawni targed 3 y cant mewn *Gwell Gwerth Cymru a Creu'r Cysylltiadau Darparu Gwasanaethau Gwell i Cymru*.

## Gwaith blaenorol gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol

1.7 Dyma'r adroddiad cyntaf gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru ar gaffael yn y sector addysg uwch yng Nghymru. Yn 2001, cyflwynwyd adroddiad gennym ar gaffael yn y sector addysg bellach[7], a rhoddwyd manylion amdano i'r sector addysg uwch yng Nghymru hefyd. Ar yr adeg honno daethom i'r casgliad bod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud ers 1999, pan nodwyd bod arferion caffael heb eu datblygu'n dda yn y rhan fwyaf o sefydliadau. Fodd bynnag, roedd cryn gyfle o hyd i sicrhau arbedion ariannol pellach drwy gynyddu'r lefel o arbenigedd yn y sector, gwella gwybodaeth reoli a thrwy fwy o gydweithredu ymysg colegau. Ymhlith meysydd eraill ar gyfer gwella roedd rheoli cyflenwyr, profi'r farchnad a rheoli ynni.

1.8 Yn ogystal, cyhoeddodd y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol adroddiad yn 1999 ar gaffael yn y sector addysg uwch yn Lloegr[8]. Canfu fod y sector wedi gwneud cryn gynnydd i wella arferion caffael ers 1993 ond gellid gwneud arbedion ariannol pellach drwy ehangu arfer da ar draws pob sefydliad. Argymhellodd yr adroddiad gydweithio agosach rhwng sefydliadau a chonsortia, gwella gwybodaeth reoli a systemau rheoli perfformiad, datblygu'r lefel o arbenigedd caffael, ac ehangu ei ddylanwad ar yr amrywiaeth o wariant nad yw'n wariant ar gyflogau.

## Cwmpas archwiliad a methodoleg Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru

1.9 Diben yr adroddiad hwn yw asesu'r sefyllfa bresennol o ran arfer caffael yn y sector addysg uwch yng Nghymru. Ystyriwn hefyd y cyfleoedd ar gyfer gwelliannau pellach, yn enwedig y cwmpas ar gyfer arbedion ariannol a gwneir nifer o argymhellion ar sut y gellir cyflawni hyn.

1.10 Ymhlith ein methodoleg, a nodir yn Atodiad 1, roedd y canlynol:

- adolygu arferion caffael sefydliadau drwy arolwg o'r sector cyfan;
- ymweld â chwe sefydliad er mwyn cael neu ddilysu gwybodaeth, a nodi astudiaethau achos;
- cyfweld â staff Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ynghylch y ffordd y maent yn monitro sefydliadau; a
- cysylltu ag ymgynghorwyr er mwyn meincnodi prisiau a delir gan sefydliadau am sampl o eitemau arferol.





7 *Caffael yn y Sector Addysg Bellach yng Nghymru, Medi 2001.*
8 *Procurement in the English Higher Education Sector (HC 437). Mai 1999.*

# 2 Mae angen sylfeini cadarnach ar y sector addysg uwch er mwyn adeiladu arfer caffael da

2.1 Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn ystyried p'un a oes gan y sector sylfeini cadarn i sicrhau gwerth am arian o'i weithgarwch caffael. Mae gweithredu systemau a phrosesau yn unol ag arfer da cydnabyddedig yn hanfodol i sicrhau y cyflawnir gwerth gorau yn y gweithgarwch caffael. Felly aseswyd perfformiad y sector addysg uwch yn erbyn y meini prawf canlynol:

- A oes gan bob sefydliad strategaeth gaffael?
- A oes gan gaffael broffil digon uchel ym mhob sefydliad?
- A oes gan bob sefydliad ddigon o arbenigedd proffesiynol?
- A oes gan bob sefydliad wybodaeth reoli dda?
- A oes gan bob sefydliad system mesur perfformiad gadarn?

## A oes gan bob sefydliad strategaeth gaffael?

2.2 Mae strategaeth gaffael yn elfen hanfodol o'r gweithgarwch caffael. Mae'n darparu'r fframwaith a'r cyfeiriad ar gyfer blaenoriaethu adnoddau a'u datblygu, ac yn ystyried sut y mae'r gweithgarwch caffael yn cyfrannu at nodau ac amcanion cyffredinol y sefydliad. Mae hefyd yn ddefnyddiol i egluro rolau a chyfrifoldebau caffael pob sefydliad. Dylai'r strategaeth bennu amcanion a sicrhau y gellir monitro'r cynnydd tuag at eu cyflawni fel y gall sefydliad asesu ei berfformiad caffael. Dylid ei hadolygu'n rheolaidd er mwyn ystyried newid yn amgylchiadau'r sefydliad. Mae canllawiau ar baratoi strategaeth ar gael gan nifer o ffynonellau; noda **Ffigur 5** y strategaeth enghreifftiol a awgrymir gan Fenter Caffael Cymru ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru.

### 5 Strategaeth enghreifftiol Menter Caffael Cymru

Awgryma Menter Caffael Cymru gynnwys y canlynol:

| | |
|---|---|
| **Proffil gwariant** | Dadansoddi gwariant er mwyn deall graddfa a phwysigrwydd gweithgarwch caffael o ran swm, natur pryniadau, risg y farchnad a risg busnes |
| **Cyfraniad a dylanwad** | Asesu graddau dylanwad canolog ar gaffael, sicrhau cymorth uwch reolwyr ar gyfer arfer gorau a phennu sut y dylid integreiddio caffael â pholisi corfforaethol ehangach fel datblygu cynaliadwy |
| **Fframwaith pwrcasu a rheoli prosesau** | Adolygu prosesau i sicrhau bod rheolaethau, dogfennau a gweithdrefnau priodol ar waith ar gyfer gwahanol fathau o gaffael |
| **Trefn a chydberthnasau mewnol a chydweithio ar draws y sector** | Adolygu cwmpas cydweithio mewnol ac allanol fel bod cydweithio yn cael ei drefnu mewn ffordd sy'n diwallu anghenion busnes yn y ffordd orau |
| **Rheoli cydberthnasau cyflenwyr** | Adolygu ansawdd y broses o reoli cyflenwyr a datblygu cynlluniau ar gyfer gwella cydberthnasau i ddiwallu anghenion y sefydliad yn y ffordd orau bosibl |
| **Defnydd effeithiol o'r dechnoleg sydd ar gael** | Asesu'r defnydd o dechnoleg bresennol a'i phosibiliadau yng nghyd-destun cynorthwyo'r broses gaffael yn effeithiol, er enghraifft darparu gwybodaeth reoli briodol a sicrhau'r costau prosesu lleiaf posibl |
| **Gallu a datblygiad y staff** | Asesu cymwysterau, sgiliau a phrofiad y staff caffael a nodi unrhyw welliannau angenrheidiol |
| **Ymagwedd strwythuredig tuag at bwrcasu effeithiol** | Nodi'r offer a'r technegau sydd eu hangen i ddeall marchnadoedd a chyflenwyr |
| **Caffael cynaliadwy** | Ymgorffori polisi datblygu cynaliadwy y sefydliad (a'r Cynulliad) yn y broses gaffael, gan nodi ffyrdd ymarferol o greu buddiannau amgylcheddol a chymdeithasol heb beryglu gwerth am arian |
| **Canlyniadau** | Nodi dangosyddion perfformiad addas sy'n darparu asesiad cytbwys o'r swyddogaeth gaffael ac sy'n gysylltiedig â chyflawni anghenion busnes cytûn. Dylai hyn gynnwys targed gwella effeithlonrwydd caffael cyffredinol nad yw'n llai na thri y cant o gyfanswm gwariant caffael y flwyddyn. Dylai dangosyddion gwmpasu ansawdd prosesau a systemau, cyfraniadau busnes, cyflenwyr, cydberthnasau mewnol a chydweithio allanol |

*Ffynhonnell: Menter Caffael Cymru*

## 6 Sefydliadau â strategaeth gaffael

| Sefydliad | Gwariant nad yw'n wariant ar gyflogau 2002-03 £000 | Strategaeth gaffael |
|---|---|---|
| Prifysgol Cymru, Caerdydd | 66,372 | ✓ |
| Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru | 36,787 | ✓ |
| Prifysgol Morgannwg | 26,955 | ✓* |
| Prifysgol Cymru, Aberystwyth | 24,683 | ✓* |
| Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd | 17,128 | ✓ |
| Sefydliad Addysg Uwch Gogledd Ddwyrain Cymru | 7,420 | ✓ |
| Athrofa Addysg Uwch Abertawe | 5,247 | ✓ |
| Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan | 3,433 | ✓ |
| Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru | 2,069 | ✓* |
| Prifysgol Cymru, Abertawe | 34,426 | ✗ |
| Prifysgol Cymru, Bangor | 26,851 | ✗ |
| Coleg Prifysgol Cymru, Casnewydd | 10,791 | ✗ |
| Coleg y Drindod Caerfyrddin | 2,910 | ✗ |

* Roedd y strategaeth yn cael ei datblygu ar adeg ein harolwg

*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru*

## A Paratoi strategaeth ym Mhrifysgol Cymru, Aberystwyth

Penderfynodd Prifysgol Cymru, Aberystwyth benodi rheolwr caffael yn 2003. Cyn hyn nid oedd ganddi adnodd caffael ganolog na strategaeth gaffael. Defnyddiodd y rheolwr newydd ganllawiau cyffredinol Swyddfa Masnach y Llywodraeth i baratoi datganiad strategaeth a gymeradwywyd gan y corff llywodraethu ym mis Gorffennaf 2004. Roedd y broses yn cynnwys:

- *dadansoddiad busnes,* er mwyn deall y ffordd y mae'r brifysgol yn gweithredu, gan gynnwys adolygiad lefel uchel cychwynnol i gategoreiddio gwariant yn ôl cynnyrch/maes gwasanaeth, adran y defnyddiwr a'r cyflenwr. Roedd hwn yn cynnwys dadansoddi sail y berthynas gytundebol gyda phob cyflenwr;
- *datblygu cyfeiriad ar gyfer y dyfodol,* drwy nodi'r prif themâu strategol i ategu gweledigaeth ar gyfer caffael yn y brifysgol. Y themâu hyn oedd: pobl (datblygu a hyfforddi), moderneiddio (prosesau a systemau), cydweithio (cydweithredu a chyfathrebu), cynaliadwyedd (adnoddau a'r amgylchedd), mesur (perfformiad a meincnodi) ac arfer da; a
- *cynllunio lefel uchel,* drwy ddewis prosiectau yn seiliedig ar themâu strategol ac asesiad ymarferol o amserlenni, adnoddau a risgiau.

Nododd y strategaeth a'r cynllun gweithredu a ddeilliodd o hyn brosiectau a fyddai'n mynd i'r afael â'r themâu strategol dros gyfnod o bum mlynedd, gan greu seilwaith caffael nad yw'n bodoli ar hyn o bryd. Ymhlith yr elfennau allweddol mae adolygiad cyflawn o weithdrefnau a systemau, rhaglen arfarnu a rhesymoli cyflenwyr, datblygu llawlyfr caffael, a chreu cysylltiadau â sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach cyfagos.

*Ffynhonnell: Rheolwr Caffael, Prifysgol Cymru, Aberystwyth*

2.3 Ar adeg ein harolwg, dim ond chwech o'r 13[9] o sefydliadau a nododd fod ganddynt strategaeth gaffael **(Ffigur 6)**. O'r rhain, dim ond dau a nododd fod ganddynt dargedau mesuradwy, ac nid oedd gan yr un ohonynt dargedau ar gyfer arbedion ariannol. Archwiliwyd ansawdd cyffredinol y dogfennau gan ddefnyddio canllawiau Menter Caffael Cymru (Ffigur 5 uchod), sy'n gyson â chanllawiau tebyg a gyhoeddwyd gan Swyddfa Masnach y Llywodraeth, adroddiadau blaenorol y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a *Gwell Gwerth Cymru*. Roedd y strategaethau yn amrywio o ran eu hyd, manylder a fformat ac ychydig a oedd wedi'u datblygu'n ddigonol i ddarparu gweledigaeth ar gyfer y gweithgarwch caffael gyda meysydd a thargedau ar gyfer gwella. Mewn rhai achosion nid oeddent fawr mwy na datganiadau o fwriad. Yn ogystal â nodi mesurau perfformiad addas, y prif feysydd lle cafwyd diffygion o ran y strategaethau oedd:

- asesu sgiliau a phrofiad staff caffael i nodi unrhyw welliant angenrheidiol;
- adolygu dulliau pwrcasu a ffyrdd o leihau costau prosesu;
- ymgorffori polisi datblygu cynaliadwy yn y gweithgarwch caffael ac; a
- asesu posibiliadau technoleg i gynorthwyo'r broses o ddarparu gwybodaeth reoli.

2.4 Mae angen amser ac arbenigedd sylweddol i baratoi strategaeth sydd wedi'i datblygu'n dda **(astudiaeth achos A),** ond efallai nad yw'r ddeubeth hyn ar gael yn hawdd i sefydliadau llai o faint. Fodd bynnag, mae angen strategaeth gaffael ffurfiol ar bob sefydliad sy'n rhoi ffurf a chyfeiriad i'w hymdrechion ac yn cyfrannu at amcanion ehangach y sector cyhoeddus, fel y nodir yn *Gwell Gwerth Cymru*. Yn unol â hynny, gallai Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ystyried p'un a oes angen cymorth allanol er mwyn sicrhau bod gan bob sefydliad yr adnoddau a'r arbenigedd i ddatblygu eu strategaethau eu hunain.

## PWYNTIAU ALLWEDDOL

**ar strategaethau caffael**

- Nid oes gan bedwar o'r 13 o sefydliadau strategaeth ac mae'r rhan fwyaf o'r dogfennau sy'n bodoli yn wan, gyda diffyg amcanion clir a diffyg cwmpasu materion allweddol yn sylweddol yn aml.

**Argymhellwn y dylai:**

- pob sefydliad ailedrych ar eu strategaethau caffael, neu, os nad oes rhai yn bodoli, ddatblygu un, yn unol â'r canllawiau sy'n bodoli eisoes. Dylai'r strategaeth gynnwys targedau mesuradwy y pennir dyddiad ar eu cyfer, gan gynnwys arbedion ariannol.

## A oes gan gaffael broffil digon uchel ym mhob sefydliad?


2.5 Mae angen proffil uchel ar gaffael ym mhob rhan o'r sefydliad er mwyn sefydlu arfer da mewn ffordd gadarn a gwneud gwelliannau yn barhaus. Er mwyn cynnal proffil o'r fath, yn ogystal â datblygu strategaeth, dylai pob sefydliad:

- benodi cyfarwyddwr ar lefel bwrdd i hyrwyddo materion caffael, a ategir gan adroddiadau rheolaidd a phenodol ar berfformiad y gweithgarwch caffael a chyflawniad ei hamcanion. Argymhellwyd hyn gan *Gwell Gwerth Cymru* ac mae'n gyson ag adolygiadau eraill y llywodraeth o gaffael;
- cynhyrchu adroddiadau rheolaidd ar gyfer y bwrdd a'r corff llywodraethu ar faterion caffael sy'n cynnwys cynnydd yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol;
- pennu polisïau a gweithdrefnau clir ar gyfer pwrcasu, a gaiff eu hadolygu a'u harchwilio yn rheolaidd; a
- cymryd camau i gynnal proffil caffael ymhlith defnyddwyr nwyddau a gwasanaethau, yn enwedig pan fo'r cyfrifoldeb dros gaffael wedi'i ddatganoli ac efallai nad yw buddiannau adnodd canolog yn cael eu gwerthfawrogi'n llawn.

2.6 Canfuom fod sefydliadau yn gwneud cynnydd wrth godi proffil caffael, er bod lefelau'r cyflawniad hwn yn amrywio ar draws y sector:

- roedd gan bob sefydliad gyfarwyddwr ar lefel bwrdd gyda chyfrifoldeb dros gaffael, er mewn pedwar sefydliad nid oedd y rheolwr caffael yn uniongyrchol atebol iddynt ond yn hytrach yn atebol drwy reolwyr canolraddol;
- dim ond wyth o'r 13 o sefydliadau a gynhyrchodd adroddiadau ar faterion caffael ar gyfer y corff llywodraethu, a'r sefydliadau â strategaethau caffael (chwech o'r wyth) oedd mwyaf tebygol o gynhyrchu adroddiadau o'r fath o gymharu â'r rhai hebddynt. Nid oedd tri sefydliad yn cyflwyno adroddiadau i'r corff llywodraethu ond roeddent yn anfon adroddiadau i'r pwyllgor rheoli neu uwch reolwyr. Mewn dau achos, fodd bynnag, ni chyflwynwyd adroddiadau ffurfiol ar faterion caffael;
- roedd gan bob sefydliad reoliadau caffael a oedd yn nodi'r trothwy priodol ar gyfer cael amcanbrisiau cystadleuol a thendrau ffurfiol. Roedd cwmpas yr archwiliad mewnol yn gyffredinol dda, gyda deg sefydliad yn derbyn o leiaf un adroddiad y flwyddyn ar fater caffael. Fodd bynnag, mewn tri sefydliad roedd llai o gwmpas i'r archwiliad mewnol, ac mewn un achos dim ond un adroddiad a gynhyrchwyd yn y deng mlynedd blaenorol. Mae diffyg cwmpas o'r fath o

9 *Nid oedd Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru wedi uno â Phrifysgol Cymru, Caerdydd ar yr adeg hon.*



ran archwiliad mewnol yn cynyddu'r perygl na fydd polisïau a gweithdrefnau yn cael eu dilyn; a

- roedd llawer o sefydliadau wedi cymryd camau i godi proffil caffael yn uwch ymhlith eu staff, ac roedd maint a diwylliant rheoli'r sefydliadau yn brif benderfynyddion ar gyfer y camau a gymerwyd. Y sefydliadau hynny ag uned caffael ganolog oedd mwyaf tebygol o fod yn rhagweithiol wrth ddatblygu proffil caffael, er nad oedd hyn yn wir bob amser, fel y dangosir yn yr enghreifftiau yn **astudiaeth achos B**.

## B Codi proffil caffael

Dwy enghraifft a grybwyllwyd gan sefydliadau yr ymwelwyd â hwy:

Mae **Athrofa Prifysgol Cymru,Caerdydd** yn defnyddio ei system pwrcasu integredig fel yr allwedd i godi proffil caffael ymhlith y staff. Mae canllaw ar-lein i brynwyr yn darparu canllawiau manwl ar bob agwedd ar y broses gaffael ac yn rhestru cyflenwyr cymeradwy. Ers cyflwyno'r canllaw yn 2001, mae cyfran yr archebion pwrcasu a wnaed gyda chyflenwyr a enwir yn y canllaw i brynwyr wedi cynyddu o 30% i 60%. Mae'r tîm caffael yn cynnal ei broffil yn allanol drwy gymryd rhan yn weithredol yn CCAUC a Menter Caffael Cymru, gyda'r rheolwr caffael yn rhoi cyngor ac yn arwain datblygiad contractau ar y cyd.

Mae **Sefydliad Addysg Uwch Gogledd Ddwyrain Cymru** yn sefydliad llai o faint ac nid oes ganddo reolwr caffael arbenigol na thîm pwrcasu canolog. Rheolwyr llinell sy'n gyfrifol am eu penderfyniadau pwrcasu sydd hefyd yn gyfrifol am gaffael. Ni cheir system ar gyfer cyflwyno adroddiadau oherwydd mae'r sefydliad o'r farn ei fod yn rhy fach i gyfiawnhau hyn ac nid oes digon o wybodaeth rheoli ar gael i fonitro perfformiad pwrcasu sut bynnag. Fodd bynnag, mae'r Cyfarwyddwr Cyllid - sy'n gweithredu fel pennaeth caffael - yn sicrhau bod caffael yn cael ei gynrychioli ar lefel bwrdd, ac mae'n galw grŵp o brynwyr o adrannau amrywiol fel TG ac Ystadau at ei gilydd i drafod caffael yn rheolaidd ac i ystyried unrhyw faterion pwysig. Mae Sefydliad Addysg Uwch Gogledd Ddwyrain Cymru yn cymryd rhan yn Consortiwm Pwrcasu Prifysgolion Gogledd Orllewin Lloegr ac yn gwneud defnydd helaeth o'i wasanaethau, er mai gallu cyfyngedig sydd ganddo i arwain contractau ar ran y consortiwm oherwydd adnoddau cyfyngedig. Mae'r consortiwm yn darparu hyfforddiant NVQ ym maes pwrcasu ac mae sawl aelod o staff wedi manteisio ar hyn i ddatblygu eu gwybodaeth am gaffael.

*Ffynhonnell: penaethiaid caffael Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd a Sefydliad Addysg Uwch Gogledd Ddwyrain Cymru*

## PWYNTIAU ALLWEDDOL

**ar broffil caffael**

- Mae llawer o sefydliadau wedi cymryd camau i godi proffil caffael yn ehangach ymhlith eu staff; y sefydliadau hynny ag uned caffael ganolog oedd mwyaf tebygol o fod yn rhagweithiol yn y maes hwn.
- Mae gan bob sefydliad gyfarwyddwr gweithredol ar y bwrdd i hyrwyddo materion caffael ond mewn rhai achosion nid yw'r rheolwr caffael yn uniongyrchol atebol iddo fe neu iddi hi.
- Ceir lle i wella arferion cyflwyno adroddiadau mewn sefydliadau er mwyn sicrhau bod y Bwrdd yn cael ei hysbysu'n rheolaidd am berfformiad caffael.

**Argymhellwn y dylai:**


- uwch reolwyr a'r corff llywodraethu mewn sefydliadau adolygu perfformiad eu gweithgarwch caffael yn rheolaidd, drwy drefniadau cyflwyno adroddiadau ffurfiol, er mwyn llywio eu penderfyniadau strategol a sicrhau gwerth am arian; a
- uwch reolwyr adolygu eu strwythur trefniadol er mwyn sicrhau, lle bynnag y bo'n ymarferol, bod y rheolwr caffael yn uniongyrchol atebol i'r cyfarwyddwr gweithredol sy'n gyfrifol am gaffael.

## A oes gan bob sefydliad ddigon o arbenigedd proffesiynol?

2.7 Ar adeg ein harolwg, roedd saith o'r sefydliadau yn cyflogi rheolwr caffael, gyda phob un ohonynt yn meddu ar gymwysterau proffesiynol drwy eu haelodaeth gorfforaethol o'r Sefydliad Siartredig Pwrcasu a Chyflenwi (CIPS). Roedd sefydliadau â lefel uwch o wariant nad oedd yn wariant ar gyflogau yn fwy tebygol o gyflogi aelod o staff arbenigol â'r prif gyfrifoldeb dros gaffael. O'r chwe sefydliad heb swyddog penodedig, roedd pedwar o'r farn eu bod yn rhy fach i gyfiawnhau hyn, ac ym marn dau ohonynt, drwy ddefnyddio consortia pwrcasu roeddent yn dileu'r angen i gyflogi rheolwr caffael cymwys.

2.8 Mae staff caffael profiadol â chymwysterau proffesiynol yn debygol o feddu ar y sgiliau allweddol i bwrcasu'n dda, gan gynnwys: dealltwriaeth o strategaethau prisio, dehongli gwybodaeth am y farchnad, y gallu i negodi telerau ac amodau, gwybodaeth am gyfraith contractau a rheoliadau caffael, a dealltwriaeth o'r modd y dylid strwythuro pwrcasu er mwyn diwallu anghenion y sefydliad yn y ffordd orau. Cydnabu adroddiadau blaenorol gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar gaffael yn y sector addysg, a *Gwell Gwerth Cymru,* nad oedd pob sefydliad yn gallu fforddio swyddog caffael amser llawn penodedig. Ni cheir trothwy i lefel benodol o wariant lle y byddai swydd caffael penodedig yn dod yn gost effeithiol. Fodd bynnag, yn *Caffael yn y Sector Addysg Bellach yng Nghymru,* amcangyfrifodd yr Archwilydd Cyffredinol y byddai sefydliadau heb wariant dros £3 miliwn nad yw'n wariant ar gyflogau yn elwa'n ariannol o swydd o'r fath. Ar hyn o bryd mae pob sefydliad addysg uwch yng Nghymru ac eithrio dau yn uwch na'r trothwy hwn. Yn **Ffigur 7** isod rhestrir y sefydliadau yn nhrefn eu gwariant nad yw'n wariant ar gyflogau, a dangosir y rhai sy'n cyflogi swyddog caffael penodedig, ynghyd â chyfanswm nifer y staff caffael cymwys a'r staff caffael nad ydynt yn gymwys.





### 7 Arbenigedd caffael mewn sefydliadau addysg uwch

| Sefydliad | Gwariant nad yw'n wariant ar gyflogau 2002-03 £000 | Swyddog Caffael Penodedig | Staff cymwys MCIPS (gan gynnwys swyddog caffael) | Staff cymorth eraill[2] |
|---|---|---|---|---|
| Prifysgol Cymru, Caerdydd | 66,372 | ✓ | 1 | 6 |
| Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru | 36,787 | ✓ | 2 | 3 |
| Prifysgol Cymru, Abertawe | 34,426 | ✓ | 3 | 2 |
| Prifysgol Morgannwg | 26,955 | ✓ | 2 | 1 |
| Prifysgol Cymru, Bangor | 26,851 | ✓ | 1 | 3 |
| Prifysgol Cymru, Aberystwyth | 24,683 | ✓ | 1[1] | 0 |
| Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd | 17,128 | ✓ | 1 | 2 |
| Coleg Prifysgol Cymru, Casnewydd | 10,791 | | 0 | 1 |
| Sefydliad Addysg Uwch Gogledd Ddwyrain Cymru | 7,420 | | 0 | 0 |
| Athrofa Addysg Uwch, Abertawe | 5,247 | | 0 | 0 |
| Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan | 3,433 | | 0 | 0 |
| Coleg y Drindod Caerfyrddin | 2,910 | | 0 | 0 |
| Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru | 2,069 | | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | **265,072** | **7** | **11** | **18** |

**NODYN**

1 Yn ogystal â'r swyddog caffael canolog, mae gan Aberystwyth ddau swyddog caffael â chyfrifoldeb penodol dros adrannau penodedig yn y brifysgol.

2 O'r 18 o staff cymorth eraill, roedd deg yn cael hyfforddiant pellach, drwy Gymwysterau Galwedigaethol Cenedlaethol yn bennaf.

*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru, y Cyngor*

## Hyfforddiant a chanllawiau

2.9 Mae hyfforddiant yn bwysig i ddatblygu a chynnal y sgiliau diweddaraf ymhlith staff caffael cymwys a staff caffael nad oes ganddynt gymwysterau. Mewn ymateb i'r angen am fwy o hyfforddiant ymhlith staff caffael, mae Menter Caffael Cymru wedi llunio rhaglen o gyrsiau ar amrywiaeth o bynciau caffael, gan gynnwys, er enghraifft, arfarnu cyflenwyr a chyfraith contractau, negodi effeithiol a chaffael CE. Bu ymateb da hyd yn hyn i'r cyrsiau gan y rhan fwyaf o sefydliadau, gyda naw yn anfon cynrychiolwyr i'w mynychu.

2.10 Yn ogystal â chyrsiau hyfforddiant, mae Menter Caffael Cymru wedi darparu canllawiau arfer da ar ddatblygu strategaeth gaffael a mesur arbedion er enghraifft. Mae hefyd yn ateb ymholiadau penodol ac yn rhoi cyngor drwy ddesg gymorth o'i swyddfa yn Abertawe. Yn ôl ein harolwg, roedd y rhan fwyaf o sefydliadau yn croesawu ymdrechion Menter Caffael Cymru ac o'r farn y byddai'n fuddiol wrth iddi gael ei chyflwyno ar draws y sector cyhoeddus.

2.11 Mae'r Grŵp Polisi a Strategaeth Gaffael ar y Cyd ar gyfer Addysg Uwch y Deyrnas Unedig (JPPSG) a'i olynydd, y Grŵp Gweithredu Strategaeth Gaffael Addysg Uwch (Proc HE) hefyd wedi bod yn ffynonellau da o ran rhoi canllawiau i'r sector, fel y corff proffesiynol, Sefydliad Siartredig Pwrcasu a Chyflenwi. Yn fwy diweddar, bu'r consortia o fudd i'r sector o ran rhannu gwybodaeth am gontractau a dogfennaeth, er enghraifft, safoni ffurflenni ar gyfer tendrau.

## Dylanwad swyddogion caffael ar draws yr amrywiaeth o wariant nad yw'n wariant ar gyflogau

2.12 Pan fo sefydliadau yn cyflogi aelod o staff arbenigol â'r prif gyfrifoldeb dros gaffael, mae'n bwysig defnyddio'r sgiliau hynny ar draws yr amrywiaeth o wariant nad yw'n wariant ar gyflogau, gan gynnwys gwariant cyfredol a gwariant cyfalaf. Mewn rhai sefydliadau efallai fod arbenigedd caffael mewn meysydd penodol eisoes, fel ystadau, ond dylai'r rheolwr caffael ategu'r sgiliau hynny gyda chyngor ar bwrcasu, er enghraifft, eitemau ar gyfer yr adeiladau. O'r saith arbenigwr caffael penodedig yn y sector addysg uwch, dim ond tri oedd o'r farn eu bod yn dylanwadu ar bob maes caffael yn y sefydliad. Er i'r rhan fwyaf nodi bod ganddynt rywfaint o ddylanwad dros wariant ar ystadau a thechnoleg gwybodaeth, ymhlith y meysydd lle nad ymgynghorwyd â rhai ohonynt roedd bancio, yswiriant, hysbysebion recriwtio, pryniannau argraffu, llyfrau ac arlwyo.

### PWYNTIAU ALLWEDDOL

**ar arbenigedd caffael**

- Ar hyn o bryd ceir chwe sefydliad yn y sector addysg uwch heb staff personél cymwys na phenodedig, er bod lefel y gwariant nad yw'n wariant ar gyflogau mewn pob sefydliad ond dau yn fwy na £3 miliwn y flwyddyn.
- Ar hyn o bryd ni all staff ag arbenigedd caffael ddylanwadu ar feysydd o wariant nad yw'n wariant ar gyflogau lle y gallent gyfrannu mewn ffordd ddefnyddiol.

**Argymhellwn y dylai:**

- pob sefydliad ystyried cost effeithiolrwydd penodi swyddog caffael penodedig a sicrhau bod eu harbenigedd caffael yn cael ei ddefnyddio ar draws yr amrywiaeth o wariant cyfalaf a gwariant cyfredol.

## A oes gan bob sefydliad wybodaeth reoli dda?

2.13 Mae gwybodaeth reoli o ansawdd da yn rhan hanfodol o gaffael effeithiol. Mae'n galluogi sefydliad i:

- fabwysiadu ymagwedd strategol i dargedu'r meysydd sy'n wynebu'r risg fwyaf o ran sicrhau gwell prisiau a gwella ansawdd;
- cymharu prisiau a rhannu gwybodaeth gyda sefydliadau eraill; a
- asesu perfformiad y gweithgarwch pwrcasu a monitro'r gwaith o sicrhau enillion o ran effeithlonrwydd.

2.14 Ceir amrywiaeth o wybodaeth rheoli, o adroddiadau ariannol lefel uchel sy'n dangos gwariant yn erbyn y gyllideb i wybodaeth fanwl am gynnyrch a gwasanaethau unigol. Dylai gwybodaeth reoli sylfaenol gwmpasu:

- faint sy'n cael ei wario, gan bwy ac ar ba nwyddau a gwasanaethau;
- nifer y cyflenwyr a'r proffil gwariant gyda hwy;
- y math o gontract y caiff nwyddau a gwasanaethau eu pwrcasu yn unol ag ef, a faint o bwrcasu sy'n cael ei wneud y tu allan i'r drefn (a elwir yn "anwybyddu contract" neu'n "wariant anarferol");

- gwybodaeth am gyflenwyr ac ansawdd nwyddau a gwasanaethau a ddarperir ganddynt; a
- costau trafodion a phrosesau ar gyfer gwahanol fathau o bryniadau.

2.15 Mae angen y wybodaeth hon i fonitro gwariant ar lefel ddigon manwl i nodi'r ffordd fwyaf priodol o gaffael (er enghraifft, i gydgrynhoi ei fusnes gyda sefydliadau eraill neu gyda llai o gyflenwyr) ac i fonitro perfformiad cyflenwyr yn effeithiol. Heb wybodaeth o'r fath, ni all sefydliadau bennu p'un a allant sicrhau gwerth am arian ai peidio, nac asesu effaith unrhyw newidiadau a wneir **(Ffigur 8)**:

**8 Rheoli cyflenwyr yn y sector addysg uwch**

Er bod gan y rhan fwyaf o sefydliadau restr o gyflenwyr, dim ond pum sefydliad sy'n cofnodi'n ffurfiol perfformiad gwael gan gyflenwyr. O ganlyniad, ceir risg y bydd cyflenwyr anfoddhaol yn cael eu defnyddio eto. O'r ymatebion i'n harolwg, ceir lle hefyd i sefydliadau resymoli nifer y cyflenwyr er mwyn hwyluso'r gwaith o bwrcasu nwyddau a gwasanaethau i lai o gyflenwyr yn ogystal â dileu perfformiad gwael. Mae hyn, yn ei dro, yn cynyddu gwerth archebion cyfartalog a'r cwmpas ar gyfer negodi gostyngiadau prynu crynswth.

## Ceir cryn gyfle i wella gwybodaeth reoli y rhan fwyaf o sefydliadau

2.16 Canfuom mai dim ond y wybodaeth fwyaf sylfaenol am gaffael yr oedd systemau'r rhan fwyaf o sefydliadau yn gallu ei darparu, a darparwyd y wybodaeth hon yn aml drwy eu systemau cyfrifo. Er enghraifft, roedd pob sefydliad yn gallu monitro a chyflwyno adroddiadau ar wariant yn erbyn y gyllideb ar gyfer rhannau amrywiol eu busnes, ac roedd gan y rhan fwyaf restr o gyflenwyr ynghyd â'r gallu i nodi taliadau a wnaed i'r cyflenwyr hynny. Fodd bynnag, dim ond gan ychydig yr oedd systemau a oedd yn casglu'r wybodaeth a restrir ym mharagraff 2.14 yn rheolaidd, ac nid oedd yr holl wybodaeth yn cael ei chasglu gan yr un sefydliad. Yn gyffredinol, roedd sefydliadau yn dibynnu ar waith adolygu â llaw i gasglu gwybodaeth o'r fath lle y bo ei hangen, yn aml ar gais pobl y tu allan i'r sefydliad yn hytrach na fel rhan o weithgarwch caffael a gynlluniwyd.



2.17 Mae lefel y wybodaeth rheoli yn amrywio'n fawr. Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd sy'n arwain y sector gyda system gwbl integredig sy'n cofnodi gwybodaeth fanwl am bob pryniad, ac sy'n gallu cyflwyno adroddiadau helaeth ar gaffael. Mae'r system wedi arwain at welliannau o ran gwybodaeth reoli, rheolaeth ariannol ac effeithlonrwydd y broses gaffael **(astudiaeth achos C)**. Mae sawl sefydliad arall wedi gweithredu systemau prosesu archebion (POP) sy'n caniatáu i archebion gael eu creu a'u hawdurdodi'n electronig. Mae'r rhain ar lefelau amrywiol o ran eu datblygiad ond mae ganddynt y potensial i ddatblygu i fod yn systemau gwbl integredig sy'n gallu darparu gwybodaeth reoli eang. Mae'r rhan fwyaf o sefydliadau yn y sector yn dal i ddibynnu ar systemau archebu papur sy'n darparu gwybodaeth reoli gyfyngedig iawn am gaffael yn benodol. Mewn rhai achosion, cesglir y wybodaeth angenrheidiol ond cyfyngir ar ei defnydd oherwydd diffyg cysondeb ac integreiddio **(Ffigur 9)**.

**C Mae gan Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd system gwybodaeth gwbl integredig sydd wedi helpu i wella'r broses gaffael**

Mae Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd (UWIC) yn gweithredu system caffael integredig a reolir yn ganolog, sydd felly'n sicrhau lefel cysondeb a rheolaeth ariannol dda, tra'n cynnal y gwaith cyllido datganoledig sy'n nodweddiadol o'r sector addysg uwch. Mae'r tîm pwrcasu yn cynnwys rheolwr caffael a dau brynwr ond mae gan holl staff y brifysgol sy'n ymwneud â phwrcasu nwyddau a gwasanaethau (y defnyddwyr) fynediad i'r system i wneud pryniadau. Mae'r system yn un awtomataidd i raddau helaeth, a chyflwynir archebion a'u hawdurdodi yn electronig. Manteision y system a nodir gan UWIC yw:

- mae lefel uchel yr awtomeiddio yn arbed amser y staff ac yn sicrhau'r costau prosesu isaf posibl;
- cynhwysir terfynau o ran awdurdod a rheolaethau eraill yn rhaglen y system, gan wella rheolaeth ariannol. Er enghraifft, dim ond cyflenwyr cymeradwy y gellir eu defnyddio, sy'n dileu'r risg o wariant anarferol ac mae angen i'r tîm pwrcasu awdurdodi cyflenwyr newydd. Mae'r tîm hefyd yn cymeradwyo pob archeb dros £30,000 ac yn adolygu sampl o bob archeb arall er mwyn canfod unrhyw afreoleidd-dra. Mae'r mewnbwn proffesiynol hwn yn helpu i sicrhau bod y sefydliad yn cydymffurfio'n llawn â rheoliadau caffael, gan gynnwys ei reoliadau ariannol ei hun;
- mae'r system yn hawdd i'w defnyddio, gyda chanllaw i brynwyr ar y we sy'n helpu'r defnyddiwr ym mhob agwedd ar brynu. Cedwir gwybodaeth am gyflenwyr cyfredol, cyflenwyr nas defnyddir a darpar gyflenwyr a gall defnyddwyr weld y wybodaeth honno yn hawdd;
- mae gwybodaeth fanwl am gynnyrch ar gael yn hawdd drwy'r system archebu electronig a gellir ei dadansoddi gan ddefnyddio gallu cyflwyno adroddiadau helaeth y system.

Mae'r rheolwr caffael yn UWIC yn adeiladu ar y cyflawniadau hyn drwy ddatblygu e-gaffael (lle mae'r prynwr yn anfon archebion ac yn derbyn anfonebau yn electronig) a chyflwyno cardiau caffael. Mae UWIC yn bwriadu uwchraddio'r system dros y ddwy flynedd nesaf er mwyn cynorthwyo'r gwaith o weithredu e-gaffael yn llawn ar gyfer y cyflenwyr hynny sy'n gallu ei defnyddio. Nid oes gan y rhan fwyaf o gyflenwyr y gallu hwn ar hyn o bryd ond mae gan e-gaffael y potensial i wneud arbedion pellach o ran effeithlonrwydd a darparu gwybodaeth reoli fwy soffistigedig.

*Ffynhonnell: Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd*

## 9 Yr angen am wybodaeth reoli well

Mewn un sefydliad, ceir rhannau amrywiol i'r systemau gwybodaeth electronig ond nid ydynt yn gysylltiedig. Golyga TG hen ffasiwn fod yn rhaid cofnodi gwybodaeth ddwywaith ar systemau gwahanol weithiau ac nid yw'r wybodaeth reoli, er ei bod yn bodoli mewn rhannau amrywiol o'r system, ar gael yn hawdd. Mae systemau gwybodaeth reoli a systemau cyfrifiadurol gwael yn cymryd amser staff sy'n chwilio am wybodaeth lle gallai systemau gwell eu galluogi i ymgymryd â thasgau caffael mwy rhagweithiol.

*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru.*

2.18 Mae'r diffygion hyn ym maes gwybodaeth reoli yn golygu nad yw systemau mesur perfformiad (paragraffau 2.20 i 2.25) wedi'u datblygu ychwaith, gyda dangosyddion sy'n gysylltiedig ag amcanion eang yn hytrach na thargedau mesuradwy sydd wedi'u diffinio'n dda. Er bod staff medrus yn gweithio yn y sector sy'n ymgymryd â gweithgarwch strategol lefel uwch, fe'u rhwystrir gan nifer o elfennau ymarferol:

- ni chaiff enillion o ran arbedion ac effeithlonrwydd eu cofnodi yn gyson ac yn gywir ar draws y sector, gan ei gwneud yn anodd iawn i asesu perfformiad caffael. Dim ond pedwar sefydliad a oedd yn gallu nodi eu harbedion blynyddol, heblaw am y rhai a gofnodwyd drwy'r consortia pwrcasu yr oeddent yn aelodau ohonynt;

- mae'n anos rhesymoli cyflenwyr, monitro eu perfformiad a datblygu cadwyn gyflenwi (h.y. gwella perfformiad cyflenwyr neu fodloni meini prawf cynaliadwyedd drwy ystyried tarddiad pryniadau'r cyflenwr). Er enghraifft, roedd rheolwr caffael newydd ei benodi mewn un sefydliad eisiau gwneud arolwg uwch o wariant, er mwyn enwi cyflenwyr a sylfaen eu contractau ar gyfer mathau gwahanol o nwyddau a gwasanaethau, ond nid oedd yn gallu cael y wybodaeth fanwl oedd angen heb siarad â'r cyflenwyr eu hunan, ffordd lafurus ac annibynadwy o wneud hyn;

- mae'n anodd rhoi gwybodaeth fanwl am y defnydd o gynnyrch i gonsortia pwrcasu er mwyn eu galluogi i negodi'n effeithiol â chyflenwyr ar gyfer contractau newydd. Mae'r pris yn dibynnu i ryw raddau ar faint o fusnes y gall contractiwr ddisgwyl ei wneud gyda chonsortiwm a pha mor gywir yw'r amcangyfrif hwn. Mae hefyd angen gwybodaeth ddibynadwy am y cynnyrch mwyaf poblogaidd ar gonsortiwm er mwyn iddo allu negodi'r gostyngiadau gorau ar gyfer y cynnyrch hwn; a

- mae'r gwaith o fonitro prisiau yn mynd yn anodd oherwydd nid oes gan y rhan fwyaf o sefydliadau wybodaeth sydd ar gael yn hawdd iddynt am brisiau uned, defnydd a chyflenwi a threfniadau dosbarthu cynnyrch unigol. Mae angen ystyried y ffactorau hyn wrth gymharu prisiau â'r rhai a delir yn y farchnad ehangach, er mwyn sicrhau bod cymhariaeth debyg at ei debyg yn cael ei gwneud. Tueddir meincnodi prisiau yn y sector ar sail ad hoc ac anffurfiol oherwydd anaml iawn y cofnodir y wybodaeth fanwl angenrheidiol a'i chasglu'n rheolaidd.

2.19 Mae angen i sefydliadau ddatblygu eu systemau ymhellach fel bod cymaint o wybodaeth sylfaenol â phosibl yn cael ei chasglu'n rheolaidd fel rhan o'r broses safonol o drefnu cyflenwyr a chontractau, a gwneud archebion. Bydd hyn yn gweithio'n fwyaf effeithlon os caiff y wybodaeth ei chofnodi'n electronig ar system integredig â gallu cyflwyno adroddiadau da, gan sicrhau y treulir yr amser lleiaf posibl yn cofnodi ac yn dadansoddi gwybodaeth. Ar hyn o bryd ychydig o sefydliadau sy'n meddu ar y gallu hwn, yn rhannol oherwydd bod gan y rhan fwyaf strwythur reoli ddatganoledig sy'n rhoi llawer o hunanreolaeth i adrannau unigol - i'r graddau nad oes yn rhaid iddynt ddefnyddio system gwybodaeth caffael a reolir yn ganolog bob amser. Mae'r adeg pan gaiff systemau cyfrifo eu newid a'u huwchraddio yn amser da i ystyried anghenion gwybodaeth caffael sefydliad a'u hymgorffori mewn system gwybodaeth reoli ehangach, gan felly sicrhau'r gwerth mwyaf o gostau ac amhariaeth na ellir eu hosgoi yn sgîl newidiadau mawr i systemau TG. Dywedodd sawl sefydliad wrthym eu bod yn gobeithio buddsoddi mewn systemau electronig er mwyn gwella eu gwybodaeth reoli, ac roedd sawl sefydliad am ddatblygu gweithgarwch e-gaffael llawn lle byddai'n bosibl cynnal y broses gaffael gyfan yn electronig.

## PWYNTIAU ALLWEDDOL

**ar wybodaeth reoli**

- Mae gan sefydliadau wybodaeth reoli gyfyngedig ac yn aml cyfyngir ar ei defnydd oherwydd systemau annigonol i gasglu a dadansoddi data. Mae hyn yn rhwystro gweithgarwch caffael strategol, er enghraifft monitro prisiau, rhannu gwybodaeth a nodi cyfleoedd i wneud arbedion.
- Byddai gwybodaeth reoli well yn hwyluso'r gwaith o fonitro a chyflwyno adroddiadau ar arbedion o fewn y sefydliadau addysg uwch ac i'r Cyngor.


**Argymhellwn y dylai:**


- sefydliadau sicrhau bod eu gwybodaeth reoli wedi'i datblygu'n ddigonol er mwyn darparu gwybodaeth sylfaenol am gyflenwyr, trafodion pwrcasu a chostau prosesu. Bydd hyn, yn ei dro, yn hwyluso'r gwaith o bennu, cyflawni a monitro arbedion gydag amser o fewn y sector addysg uwch.

## A oes gan bob sefydliad system mesur perfformiad gadarn?

2.20 Mae'n rhaid i system mesur perfformiad gref ategu strategaeth gaffael. Golyga hyn bennu amcanion clir ar gyfer y gweithgarwch caffael, nodi dangosyddion perfformiad priodol a monitro cyflawniadau yn eu herbyn. Mae mesurau perfformiad priodol yn sicrhau bod gan reolwyr a llywodraethwyr sefydliadau ddull ffurfiol o asesu perfformiad caffael gan roi sicrwydd iddynt fod y broses gaffael yn cyfrannu at nodau cyffredinol y sefydliad. Er mwyn asesu perfformiad y gweithgarwch caffael yn llawn, mae angen dangosyddion ariannol a dangosyddion nad ydynt yn ariannol, a dylent gwmpasu ystod lawn y gweithgarwch caffael.

2.21 Canfuom mai ychydig o'r sefydliadau a oedd yn meddu ar systemau mesur perfformiad ffurfiol. Nododd pum sefydliad un ai nad oeddent yn mesur eu gweithgarwch caffael neu eu bod yn ei chael yn anodd i wneud hynny, yn bennaf oherwydd diffyg adnoddau neu arbenigedd. Roedd y sefydliadau eraill yn defnyddio amrywiaeth o fesurau, gan gynnwys yr arbedion a wnaed, swm y gwariant a ddylanwadwyd gan y rheolwr caffael, boddhad cwsmeriaid, yr amser a gymerwyd i brosesu archebion, a chyflawniad yn erbyn amcanion penodol a nodir mewn strategaethau neu gynlluniau gweithredu. Ychydig o sylfaen ar gyfer mesur perfformiad yn gadarn a ddarparwyd gan y strategaethau caffael, oherwydd dim ond dau ohonynt a oedd yn meddu ar dargedau mesuradwy. Roedd gan y rhan fwyaf o sefydliadau nifer bach o fesurau - dau neu dri fel arfer - yn annibynnol ar eu strategaethau, yn seiliedig ar y wybodaeth a oedd ar gael a'r hyn a oedd yn well gan y rheolwr caffael. Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd oedd y sefydliad â'r amrywiaeth mwyaf cynhwysfawr o amcanion strategol, er nad oedd ganddynt dargedau ffurfiol **(astudiaeth achos D)**.





### D Mae Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd yn mesur ei pherfformiad caffael gan ddefnyddio sawl dangosydd sy'n cwmpasu'r holl amcanion strategol allweddol

Mae'r Athrofa yn defnyddio sawl dangosydd i fesur llwyddiant ei gweithgarwch caffael wrth weithredu'r strategaeth:

- gwerth archebion ar gyfartaledd, nifer yr archebion a nifer y cyflenwyr: mae hyn yn dynodi llwyddiant yr Athrofa wrth gydgrynhoi gwariant gyda nifer cyfyngedig o gyflenwyr allweddol. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae gwerth archebion ar gyfartaledd wedi cynyddu tra bod nifer yr archebion a'r cyflenwyr wedi gostwng yn gyson;
- cwmpas contractau: cyfran y gwariant a gwmpesir gan gontractau a drefnir drwy'r tîm pwrcasu;
- y defnydd o'r canllaw i brynwyr ar-lein: cyfran yr archebion a wneir gyda chyflenwyr a hyrwyddir yn y canllaw i brynwyr;
- arbedion cost a wneir drwy weithgarwch pwrcasu - fel dangosydd cyffredinol o berfformiad cyffredinol, ond nid fel prif fesur; a
- costau prosesu - defnyddir y gost gyfartalog fesul archeb i ddynodi effeithiolrwydd Agresso (y system pwrcasu integredig) i leihau costau gweinyddol.

Fel arfer cyflwynir adroddiad ar y dangosyddion perfformiad i'r Cyfarwyddwr Cyllid bob tri mis, ac fe'u defnyddir i ategu'r asesiad yn yr adroddiad caffael blynyddol a gyflwynir i bwyllgor archwilio'r Athrofa. Fodd bynnag, ni chânt eu defnyddio fel targedau; yn hytrach, mae UWIC yn ffafrio asesiad eang o dueddiadau cyffredinol, ar sail y ffaith bod gwelliant sylweddol yn cymryd amser ac na ellir ei asesu'n gywir gan ddefnyddio ychydig o ddangosyddion penodol.

*Ffynhonnell:UWIC*



2.22 Mae gwneud arbedion ariannol yn nod allweddol gan Fenter Caffael Cymru, ond dim ond gan dri o'r sefydliadau y mae targed arbedion. Mewn dau achos, nid yw'n benodol ond yn hytrach yn ymrwymiad cyffredinol i arbed y gost o redeg yr uned caffael ganolog o leiaf. Roedd pob rheolwr caffael a holwyd gennym yn amharod i bennu targedau penodol o ran arbedion ar gyfer eu sefydliadau ar sail y ffaith bod arbedion yn anodd i'w mesur (gan fwyaf o achos y diffyg o wybodaeth reoli ddibynadwy) a'i bod yn mynd yn anos i wneud arbedion unwaith y manteisir ar y cyfleoedd gorau, gan felly gosbi sefydliadau a oedd eisoes wedi gwneud gwelliannau sylweddol.

2.23 Mae Menter Caffael Cymru wedi ceisio mynd i'r afael â'r amheuon hyn, a godwyd yn ehangach o fewn y sector cyhoeddus yng Nghymru, drwy ddatblygu model ar gyfer mesur arbedion gwerth am arian **(Ffigur 10)** a thrwy annog sefydliadau i bennu targed realistig ar gyfer gwneud arbedion sy'n adlewyrchu eu sefyllfa bresennol. Nid dim ond y dangosydd hwn a ddylai fodoli ar gyfer perfformiad y tîm pwrcasu, ond dylai fod yn elfen ganolog o strategaeth gaffael a system mesur perfformiad pob sefydliad. Mae'r Fenter yn awyddus i bob corff sy'n cael arian cyhoeddus yng Nghymru gofnodi a mesur eu harbedion yn gyson er mwyn gallu gwneud cymariaethau dilys a dynodi llwyddiant *Gwell Gwerth Cymru* wrth gyflawni ei darged cyffredinol ar gyfer arbedion.

2.24 Canfuom nad oedd y rhan fwyaf o sefydliadau yn cofnodi arbedion o gwbl, heblaw am y rhai a gafwyd ar eu rhan gan CPAUC ac a nodwyd gan y consortiwm. Dim ond tri sefydliad a gyfrifodd arbedion o'u gweithgarwch caffael eu hunain, ac nid oedd yr un ohonynt yn cyfrifo arbedion prosesau (y rhai a wnaed drwy leihau cost y broses gaffael, yn hytrach nag arbedion a wnaed ar y pryniadau eu hunain). Yn y rhan fwyaf o achosion, gwnaed yr arbediad oherwydd gostyngiad mewn pris, er ei bod yn amlwg o'n hymweliadau â'r sefydliadau y gellid bod wedi cyfrifo arbedion eraill - er enghraifft o waith negodi ôl-gontract a symleiddio prosesau. Mae'n bosibl y caiff arbedion eu tanddatgan mewn rhai meysydd, ac y gallai defnyddio'r system mesur gwerth a gynigir gan Fenter Caffael Cymru arwain at gynnydd yn lefel yr arbedion a gofnodir ond nid o reidrwydd cynnydd mewn arbedion gwirioneddol. Serch hynny, byddai mabwysiadu'r model yn golygu bod sylw yn cael ei roi i flaenoriaeth

## 10 Beth yw arbediad?

Gellir mesur arbedion mewn amryw ffyrdd ac nid yw'n hawdd nodi pob math o arbediad. Mae Menter Caffael Cymru wedi datblygu model ("system mesur gwerth") er mwyn dosbarthu arbedion mewn ymdrech i sicrhau bod system archwiliadwy a chynhwysfawr yn cael ei chymhwyso'n gyson ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r system yn defnyddio diffiniad y Sefydliad Siartredig Pwrcasu a Chyflenwi o arbediad sef " budd sy'n cynyddu neu'n cynnal sefyllfa ariannol y sefydliad. Dim ond os yw canlyniadau yn cael eu gwireddu a'u mesur y dônt yn arbedion". Mae'n rhaid addasu pob arbediad er mwyn ystyried chwyddiant (neu ddatchwyddiant yn achos cynnyrch sy'n cwympo mewn pris, fel llawer o gynnyrch cyfrifiadurol). Ceir tri chategori bras o arbedion:

| Categori | Enghraifft |
|---|---|
| Gostwng pris | Yr un eitem yn costio llai<br>Arbedion yn sgîl gwaith negodi ôl-gontract<br>Cynnwys eitemau neu wasanaethau ychwanegol heb gost ychwanegol<br>Gostyngiadau prynu crynswth |
| Osgoi codi | Osgoi codi prisiau drwy negodi<br>Gohirio codi prisiau<br>Nawdd cyflenwr (rhoi arian) neu greu incwm |
| Gwerth ychwanegol | Newid y fanyleb i ddileu cost diangen<br>Newid y broses ariannu (e.e. prydlesu yn hytrach na prynu)<br>Cost prosesu is oherwydd gweithdrefnau symlach ar gyfer archebion â gwerth isel (e.e. cardiau pwrcasu neu gontractau yn ôl y gofyn) |

*Ffynhonnell: System Mesur Gwerth y Sector Cyhoeddus yng Nghymru, a ddatblygwyd ar y cyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac Uned Cymorth Caffael Llywodraeth Leol Cymru gyda chymorth Menter Caffael Cymru yn seiliedig ar y system a ddatblygwyd gan Brifysgol Heriot Watt*

polisi Llywodraeth y Cynulliad o sicrhau arbedion a byddai'n galluogi'r Cygnor i nodi meysydd lle'r oedd angen datblygu pellach.

2.25 Yn gyffredinol, mae angen i'r sector ddatblygu trefniadau mesur perfformiad mwy ffurfiol a chynhwysfawr. Dylai'r rhain gynnwys (heb fod yn gyfyngedig i) ddangosyddion penodol a mesuradwy y gellir eu defnyddio i asesu gweithgarwch caffael yn wrthrychol. Bydd hyn yn cyfrannu at asesiad cytbwys o berfformiad caffael, yn seiliedig ar yr amcanion a bennir yn strategaeth gaffael y sefydliad, a bydd yn amlygu meysydd lle mae angen datblygu pellach. Yn y rhan fwyaf o sefydliadau, bydd angen i wybodaeth rheoli wella'n sylweddol er mwyn datblygu system o'r fath.

## PWYNTIAU ALLWEDDOL

**ar fesur perfformiad**

- Ychydig o sefydliadau sy'n meddu ar system mesur perfformiad gadarn sy'n cwmpasu amcanion clir, dangosyddion perfformiad cynhwysfawr ac adroddiadau rheolaidd i uwch reolwyr. Mae system o'r fath yn fwyaf tebygol lle mae gweithgarwch caffael wedi'i ganoli a lle y caiff ei ategu gan system gwybodaeth reoli integredig sydd wedi'i datblygu'n dda.
- Ceir amharodrwydd mawr i bennu targedau arbedion, er yr argymhellir hyn gan Fenter Caffael Cymru a bellach ceir model cyffredin ar gyfer mesur enillion gwerth am arian.

**Argymhellwn y dylai:**

- pob sefydliad ddatblygu system mesur perfformiad gadarn a chytbwys gyda thargedau mesuradwy y pennir dyddiad ar eu cyfer, gan gynnwys targedau amlwg o ran arbedion. Dylid cyflwyno adroddiadau rheolaidd ar berfformiad yn erbyn yr amcanion i'r uwch reolwyr.

## Rôl Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

2.26 Er bod y sefydliadau yn llywodraethu eu hunain, mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (y Cyngor) yn gyfrifol am sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd ddarbodus, effeithlon ac effeithiol. Er nad oes ganddo'r awdurdod i roi cyfarwyddyd i'r sefydliadau, gall annog a hwyluso gwelliannau drwy ledaenu arfer da a monitro cynnydd. Fel rhan o'i rôl i warchod arian cyhoeddus, mae gwasanaeth archwilio'r Cyngor yn adolygu proses rheoli a llywodraethu pob sefydliad bob tair blynedd, gan gynnal adolygiadau dilynol interim. Mae'r adolygiad hwn yn canolbwyntio ar reolaethau a gweithdrefnau lefel uchel yn hytrach na chanlyniadau, ac nid yw'r Cyngor yn monitro perfformiad caffael sefydliadau unigol, na'r sector cyfan.

2.27 Mae'r Cyngor hefyd yn ceisio cyfrannu at wella caffael yn y sector addysg uwch yng Nghymru drwy ariannu ProcHE sy'n gyfrifol am weithredu'r strategaeth ar gyfer addysg uwch ar draws y DU, a bod yn aelod ohono. Mae'r grŵp hwn yn rhoi canllawiau a chymorth i sefydliadau drwy nifer o fentrau, ond nid oedd ganddo'r awdurdod i ddal y sefydliadau yn atebol am eu perfformiad caffael. Nid yw'r Cyngor yn rhoi canllawiau na chyngor i sefydliadau'n uniongyrchol o ran materion caffael ond mae'n cefnogi gwaith Proc HE ac arbenigwyr eraill yn y maes sy'n ymgymryd â'r gweithgarwch hwn; a dywedodd y staff caffael yn y sefydliadau yr ymwelwyd â hwy mai ychydig iawn o gysylltiad uniongyrchol oedd â'r Cyngor.

2.28 O ystyried annibyniaeth y sefydliadau a pherthynas hyd braich y Cyngor, ceir perygl na fydd gwelliannau mewn perfformiad, yn enwedig gwireddu arbedion ariannol, yn digwydd. Er mwyn i'r sector gyflawni'r targed o dri y cant a nodir yn *Gwell Gwerth Cymru a Creu'r Cysylltiadau: Darparu Gwasanaethau Gwell i Gymru,* rhaid iddo nodi arbedion blynyddol o tua £8 miliwn. Mewn ymateb i'n harolwg, nododd sefydliadau arbedion o £1.65 miliwn yn 2001-02. At hynny, mae sefydliadau yn amharod i bennu targedau penodol ar gyfer arbedion ariannol a cheir diffyg methodoleg gyson a dibynadwy ar gyfer eu hasesu a'u cofnodi.

**Argymhellwn y dylai cyngor cyllido addysg uwch Cymru:**

- gytuno ar strategaeth glir ar gyfer cyflawni'r targedau o ran arbedion a nodir yn *Gwell Gwerth Cymru a Creu'r Cysylltiadau: Darparu Gwasanaethau Gwell i Cymru* gyda'r sector;
- monitro'r broses o weithredu'r strategaeth a dal y sefydliadau yn atebol am eu perfformiad caffael; a
- gweithio gyda'r sefydliadau i gyflawni unrhyw welliannau i systemau ac arferion caffael sy'n angenrheidiol i gyflawni a chofnodi'r arbedion targed.

# 3 Mae gan y sector y potensial i gyflawni arbedion pellach

## Cyflwyniad

3.1 Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn ystyried y camau a gymerwyd gan y sector i wella ei berfformiad caffael, a'r potensial ar gyfer gwelliannau pellach, yn enwedig o ran arbedion ariannol. Ychydig o dystiolaeth ddibynadwy a mesurol sydd ar gael ar ba mor dda y mae'r sector addysg uwch yng Nghymru yn perfformio ar hyn o bryd, mewn perthynas â chyrff cyhoeddus a chyrff y sector preifat, ac felly pa arbedion posibl sy'n bodoli. Mae cymariaethau o'r fath yn broblematig oherwydd y diffyg gwybodaeth reoli gyson a dibynadwy o fewn y sector a'r anhawster cynhenid o gymharu costau ac agweddau eraill ar berfformiad caffael mewn marchnad amrywiol a chymhleth iawn.

3.2 Fel dangosydd eang ar gyfer cynnyrch defnyddiadwy yn unig, dangososdd ymarfer meincnodi prisiau a gomisiynwyd gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru fod y sector yn gyffredinol yn talu'n agos iawn i'r cyfartaledd (1.2 y cant yn fwy na sefydliadau cymharol) am sampl o eitemau cyffredin **(Ffigur 11)**. Fodd bynnag, yn tanategu'r perfformiad cyfartalog hwn cafwyd amrywiadau mawr rhwng sefydliadau a chategorïau o wariant sy'n dynodi rhywfaint o le i wneud arbedion pellach. Gan fod yr ymarfer hwn yn cwmpasu cynnyrch defnyddiadwy fel deunydd ysgrifennu a bwyd, ni ellir allosod y canfyddiadau i fathau eraill o wariant sy'n cyfrif am y rhan fwyaf o weithgarwch caffael y sector.

### 11 Cymharu prisiau cynnyrch defnyddiadwy

Comisiynodd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru asiantaeth meincnodi prisiau, sef Purchasing Index (UK) Ltd, i gymharu'r prisiau a dalwyd gan sefydliadau ar gyfer eitemau cyffredin o gymharu â phrisiau a dalwyd mewn rhannau eraill o'r sector cyhoeddus a phreifat ehangach. Gofynnodd yr asiantaeth am wybodaeth fanwl am sampl o 80 o eitemau penodol, y bwriadwyd iddynt gynrychioli gwariant y sector ar gynnyrch defnyddiadwy ar gyfer arlwyo, deunydd ysgrifennu, cyfrifiaduron, labordai a gwasanaethau glanhau. Mae'r categorïau hyn o gynnyrch yn cyfrif am tua £25 miliwn o wariant yn y sector. Dychwelodd yr 13 o sefydliadau yr holiadur, ac awgrymwyd cynnyrch tebyg arall ar gyfer meincnodi gan arwain at sampl o 169 o eitemau. Cymharwyd y prisiau â'r rhai a dalwyd am yr un cynnyrch gan sefydliadau cymharol yn y sector cyhoeddus a phreifat. Yn seiliedig ar ddefnydd blynyddol amcangyfrifedig y sector o'r cynnyrch yn y sampl, dangosodd y dadansoddiad y canlynol:

- ar gyfartaledd talodd y sector 1.2% yn fwy na'r sefydliadau cymharol;
- fel uchafswm, byddai'r sector yn arbed 12.4 y cant o'i wariant cyfredol pe byddai'n gallu prynu pob cynnyrch am y pris isaf a dalwyd o fewn y sector, a 18.8 y cant pe byddai'n gallu prynu pob cynnyrch am y pris isaf a dalwyd gan y sector a'r sefydliadau cymharol; a
- cafwyd amrywiadau mawr o ran y prisiau a dalwyd gan sefydliadau ar gyfer cynnyrch tebyg iawn, nad oedd yn bosibl esbonio pob un oherwydd gwahaniaethau mewn ansawdd, brand, swm yr archeb (gyda symiau mwy yn golygu prisiau is o bosibl) a threfniadau dosbarthu.

Mewn gwirionedd mae'r cwmpas ar gyfer gwneud arbedion yn llai na'r ffigurau a ddangosir uchod, oherwydd nid yw'r pris isaf ar gael i bob sefydliad ac efallai y bydd defnyddwyr yn dymuno fersiwn drutach, o safon uwch o gynnyrch. Ceir esboniad manylach o'r canfyddiadau yn **Atodiad 2**, a dynoda mai'r prif esboniad dros wahaniaethau mewn prisiau yw'r ffaith bod defnyddwyr yn ffafrio safon neu frand penodol o nwyddau, er i amrywiaeth o ffactorau eraill effeithio arnynt hefyd. Serch hynny, cafwyd sawl amrywiad mawr ar gyfer rhai cynnyrch na ellid eu cyfiawnhau gan y ffactorau hyn, ac awgryma fod lle i sylweddu arbedion o hyd wrth bwrcasu cynnyrch defnyddiadwy, yn enwedig lle gallai sefydliadau dalu prisiau llai drwy ddefnyddio contractau consortiwm yn hytrach na'u contractau lleol eu hunain.



*Ffynhonnell: dadansoddiad Swyddfa Archwilio Genedlaethol o ddata prisiau a gyflwynir gan sefydliadau.*

3.3 Yn eu hymatebion i'n harolwg nododd sefydliadau sawl ffactor a oedd yn effeithio ar eu gallu i wella arferion caffael yn y sector **(Ffigur 12)**; pe byddai'r rhai yn cael eu goresgyn, yn eu barn hwy gellid gwneud arbedion sylweddol yn ogystal ag arwain at fanteision eraill. Yng ngweddill yr adroddiad hwn ystyriwn y posibilrwydd o wella caffael yn y sector drwy:

- ehangu'r cydweithredu rhwng sefydliadau, ac yn ehangach gyda sectorau eraill;
- rheoli cyflenwyr a chontractau yn well;
- profi'r farchnad;
- defnyddio caffael i helpu datblygiad cynaliadwy; a
- gwella prosesau caffael.

## Gall cydweithredu pellach arwain at well gwerth am arian

3.4 Mae caffael ar y cyd yn ffordd sefydledig o wella gwerth am arian yn y sector cyhoeddus, yn enwedig ar gyfer sefydliadau llai o faint fel y rhan fwyaf o'r sefydliadau yn y sector addysg uwch yng Nghymru. Fel arfer, gwneir hyn ar ffurf consortiwm pwrcasu, sydd â'r potensial i sicrhau prisiau isel a gwell gwasanaeth drwy gyfuno pŵer pwrcasu ei aelodau. Mae gan gonsortia pwrcasu fuddiannau posibl eraill, yn enwedig ar gyfer sefydliadau llai o faint, gan gynnwys:


- rhannu gwybodaeth a phrofiad ymhlith aelodau'r consortiwm i godi ymwybyddiaeth fasnachol prynwyr a defnyddwyr gwasanaeth o fewn sefydliadau;
- defnydd mwy effeithlon o'r adnoddau sylweddol sydd eu hangen i ymchwilio i, dyfarnu a rheoli contractau yn dda, oherwydd rhennir y baich hwn rhwng aelodau'r consortiwm. Gall rhannu adnoddau fel hyn alluogi'r consortiwm i wella ansawdd ei weithgarwch caffael, o gymharu â sefydliadau unigol y mae eu hadnoddau yn fwy prin; a
- mwy o botensial i ddatblygu cydberthnasau gyda chyflenwyr, er enghraifft, drwy gynnal arddangosfeydd ar gyfer cyflenwyr er mwyn iddynt hysbysebu cyfleoedd iddynt yn y sector, ac i ddarparu hyfforddiant.

3.5 Ceir saith consortiwm pwrcasu rhanbarthol ar gyfer y sector addysg uwch yn y Deyrnas Unedig. Yng Nghymru, mae 10 o'r 13 o sefydliadau yn aelodau o Gonsortiwm Pwrcasu Addysg Uwch Cymru (CPAUC). Mae dau sefydliad yn y Gogledd wedi dewis ymuno â Chonsortiwm Pwrcasu Prifysgolion

12 Mae sefydliadau yn amrywio o ran eu barn ar sut i wella eu gweithgarwch caffael ond mae mwy o gydweithredu, systemau caffael gwell a mwy o adnoddau yn themâu cyffredin

| Meysydd ar gyfer gwella a nodwyd mewn ymatebion i'r arolwg | Nifer y sefydliadau |
|---|---|
| Mwy o gydweithredu (e.e. defnyddio consortia'n fwy) | 6 |
| Mwy o staff/adnoddau | 6 |
| Cyflwyno e-gaffael | 3 |
| Penodi swyddog caffael | 2 |

*Ffynhonnell: Arolwg y Swyddfa Archwilio Genedlaethol*



Gogledd Orllewin Lloegr (NWUPC) yn hytrach na CPAUC am resymau sy'n ymwneud ag agosatrwydd daearyddol. Crynhoir gweithrediadau ac aelodaeth y ddau gonsortiwm hwn yn **Ffigur 13**. Mae un sefydliad sef Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru wedi ymuno â chonsortiwm Cyngor Sir Caerdydd oherwydd ei fod o'r farn bod y ffi tanysgrifio yn fwy fforddiadwy o ystyried maint y sefydliad. Mae sefydliadau hefyd yn defnyddio consortia mwy arbenigol detholus, fel y rhai ar gyfer ynni, meddalwedd ac arlwyo, a chytundebau fframwaith cenedlaethol a negodwyd gan Proc HE neu Swyddfa Masnach y Llywodraeth. Yn ogystal, mae CPAUC a NWUPC yn defnyddio contractau a negodwyd gan gonsortiwm arall i'w cymhwyso ledled y Deyrnas Unedig (cytundebau cenedlaethol) neu ar draws sawl rhanbarth o'r consortiwm (trefniadau rhwng rhanbarthau).

3.6 Mae'r consortia yn amrywio'n sylweddol o ran eu trefniadau gweithredu. Mae CPAUC yn llai o faint, gyda dim ond dau aelod o staff, ac mae'n dibynnu ar danysgrifiadau aelodau ar gyfer ei incwm. Mae gan NWUPC bump cyflogai, gan gynnwys arbenigwyr caffael cymwys, ac incwm llawer mwy yn seiliedig ar ad-daliadau contractau (taliadau gan gyflenwyr yn seiliedig ar faint o fusnes a wneir gyda hwy). Mae hyn yn galluogi NWUPC i ymgymryd â gweithgareddau marchnata mwy eang, i hyrwyddo ei gontractau i sefydliadau ac i ddatblygu cydberthnasau â chyflenwyr drwy arddangosfeydd a hyfforddiant ar sut i werthu i'r sector addysg uwch. Mae hefyd yn rhoi hyfforddiant caffael achrededig i staff y sefydliadau. Mae'r ddau gonsortiwm yn dibynnu'n fawr ar eu grwpiau cynnyrch i ddarparu canllawiau ar anghenion yr aelod sefydliadau ac i ddyfarnu a rheoli contractau ar ran y consortiwm. Felly mae gwir gost y consortia yn debygol o fod yn sylweddol uwch na'u hincwm unwaith y caiff cost gwasanaethau di-elw ei chynnwys.

## 13 Mae CPAUC yn gonsortiwm llai o faint na NWUPC ac yn fwy dibynnol ar danysgrifiadau aelodau

| | CPAUC | NWUPC |
|---|---|---|
| Statws | Cymdeithas gwirfoddol heb unrhyw statws trefniadol ffurfiol | Cwmni di-elw cyfyngedig drwy warant |
| Nifer yr aelodau | 10[10] | 21 + 4 coleg AB cysylltiedig |
| Aelodau yng Nghymru | 10 (ac eithrio Prifysgol Cymru, Bangor, Sefydliad Addysg Uwch Gogledd Ddwyrain Cymru a Choleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru) | 2 (Sefydliad Gogledd Ddwyrain Cymru a Phrifysgol Cymru, Bangor) |
| Incwm yn y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2003, yn cynnwys: | £41,129 (86% o ffioedd aelodaeth) | £306,535 (o ad-daliadau contractau yn bennaf) |
| Ffioedd aelodaeth (2002-03) | £3,200 fesul sefydliad | £6,300, £3,750 neu £1,750 yn dibynnu ar faint y sefydliad |
| Nifer y cyflogeion | 2 | 9 (gan gynnwys staff hyffordiant) |
| Grwpiau cynnyrch (gweithgorau o brynwyr sy'n monitro ac yn rhoi cyngor ar gontractau) | 9 | 10 |
| Gwariant gan sefydliadau ar gontractau'r consortiwm, 2002-03 | £13.9m (6% o wariant nad yw'n wariant ar gyflogau) | £37.0m (8.5% o gyfanswm gwariant nad yw'n wariant ar gyflogau) |
| Arbedion a wnaed, 2002-03 (% o wariant gan sefydliadau ar gontractau'r consortiwm) | £1.35m (9.7%) | Anhysbys ond amcangyfrifir fel 8% ar gyfer y ddau aelod o Gymru |

*Ffynhonnell: Adroddiadau blynyddol CPAUC a NWUPC a chyfweliadau â staff ac aelodau'r consortiwm*

*10 Mae Cofrestrfa Prifysgol Cymru hefyd yn aelod o CPAUC ond ni chaiff ei chynnwys yn yr adroddiad hwn oherwydd ei rôl weinyddol.*

## Mae sefydliadau yn elwa ar y trefniadau sy'n bodoli ond ceir lle i'w hehangu ymhellach

3.7 Mae'r consortia wedi llunio contractau sy'n cwmpasu ystod eang o nwyddau a gwasanaethau, sef cynnyrch defnyddiadwy yn bennaf. Lle nad negodwyd contractau rhanbarthol, mae aelodau consortia yn aml yn cefnogi contractau cenedlaethol a negodwyd gan gonsortiwm arall neu asiantaeth gyhoeddus. Defnyddir y contractau hyn yn helaeth, gyda rhan fwyaf o'r gwariant ar y nwyddau a'r gwasanaethau perthnasol a gafwyd gan gontractau'r consortiwm.

3.8 Amcangyfrifa CPAUC fod y contractau hyn wedi arbed £1.35 miliwn i'w aelodau yn 2002-03, neu 9.7 y cant o'r gwariant a wnaed drwy'r consortiwm. Amcangyfrifa arbedion pellach o tua £610,000 neu 9.6 y cant o wariant contractau ar gontractau cenedlaethol cysylltiedig. Mae hyn yn cymharu ag wyth y cant yn 2001-02 a chwech y cant yn 2000-01. Ni cheir ffigurau cyfatebol ar gyfer NWUPC, nad yw'n casglu gwybodaeth am arbedion, ond amcangyfrifa'r ddau aelod o Gymru eu bod wedi arbed o leiaf wyth y cant o'u gwariant ar gontractau NWUPC a nodir arbedion sylweddol uwch ar rai contractau. Ategir yr arbedion hyn a arweinir gan y consortiwm, i raddau llai, gan ganlyniadau ein gwaith meincnodi ein hunain **(Ffigur 14)**.

3.9 Mae cwmpas y consortia yn gyfyngedig i gynnyrch defnyddiadwy, safonol ac eithaf cyffredin a ddefnyddir ar draws y sector. Gwnaed llai o gynnydd gyda chynnyrch mwy cymhleth ac anarferol, oherwydd mae anghenion sefydliad yn aml yn benodol ac felly'n anodd i'w safoni ar draws consortiwm. Gan fod gwariant ar gynnyrch defnyddiadwy yn cyfrif am leiafrif o gyfanswm caffael, gwariwyd tua £25 miliwn drwy'r consortia a chytundebau cenedlaethol tebyg yn 2002-03, sef dim ond 9.2 y cant o gyfanswm gwariant caffael. Mae CPAUC a NWUPC am ehangu eu cwmpas i feysydd newydd. Mae NWUPC yn bwriadu gwneud cynnydd o 30 y cant, yn ystod y tair blynedd hyd at ddiwedd 2005, gyda chyfran o wariant ei aelodau ym mynd drwy gontractau NWUPC. Mae'r consortiwm yn bwriadu cyflawni hyn drwy gyfuniad o leihau achosion o anwybyddu contractau, datblygu contractau newydd ar gyfer pryniadau llyfrgell a gwaredu gwastraff ynghyd â nodi potensial ar gyfer contractau eraill drwy ddadansoddi gwariant ar draws y consortiwm. Nodir y cynlluniau hyn mewn strategaeth tair blynedd a gymeradwywyd gan fwrdd rheoli'r cwmni.

**14** Dengys gwaith meincnodi prisiau fod prisiau consortiwm yn gyffredinol is

Fel rhan o'r ymarfer meincnodi prisiau, cymharwyd y prisiau a dalwyd gan sefydliadau yn seiliedig ar y math o gontract. Er bod y canlyniadau yn anodd i'w dehongli oherwydd y nifer mawr o ffactorau sy'n effeithio ar brisiau, a nifer cyfyngedig prisiau nad ydynt yn ymwneud â chonsortiwm, o'r 63 o eitemau a bwrcaswyd o dan gontractau consortiwm a chontractau nad ydynt yn ymwneud â chonsortiwm, canfuwyd bod cost y "basged o nwyddau" (cyfanswm defnydd blynyddol yr eitemau perthnasol) bump y cant yn fwy gan ddefnyddio'r pris cyfartalog ar gyfer contractau nad ydynt yn ymwneud â chonsortiwm yn hytrach na defnyddio'r pris consortiwm cyfartalog.

*Ffynhonnell: Dadansoddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol o ddata prisiau a gyflwynwyd gan sefydliadau*



3.10 Cyfyngir ar allu CPAUC i ehangu ei gwmpas i raddau mwy gan ddiffyg adnoddau. Mae'n dibynnu'n gyfan gwbl ar y garfan fechan o arbenigwyr caffael cymwys yn yr aelod sefydliadau, gan gyfyngu ar ei allu i nodi a datblygu cyfleoedd ar gyfer contractau newydd ac i'w rheoli unwaith y cytunir arnynt. O ganlyniad, mae cwmpas contractau cenedlaethol a lleol fymryn yn llai nag yn NWUPC a cheir cwmpas i hyrwyddo'r contractau yn gadarnach er mwyn sicrhau'r gyfradd dderbyn uchaf posibl a datblygu cydberthnasau â chyflenwyr. Priodolir llawer o lwyddiant NWUPC wrth gynyddu cyfradd dderbyn ei gontractau i'w weithgareddau marchnata a datblygu cyflenwyr. Cydnabu CPAUC yr angen i ehangu cwmpas ei gontractau ac i reoli contractau yn fwy rhagweithiol drwy eu hadolygu'n ofalus a'u hyrwyddo'n gadarnach ymhlith ei aelodau. Mae'r gyfradd dderbyn yn amrywio'n eang rhwng sefydliadau. Dangosodd ein gwaith cymharu prisiau y gwnaed mwy na 90 y cant o bryniadau ar gyfartaledd drwy gonsortia, ond roedd gan dri sefydliad gyfradd dderbyn is, yn amrywio o 54 y cant i 73 y cant - mewn dau achos sefydliadau bach oeddent heb swyddog caffael, ac mewn un achos sefydliad mwy o faint ydoedd gyda strwythur datganoledig iawn, lle dim ond yn ddiweddar y penodwyd swyddog caffael. Yn ogystal, golyga rheolaeth ddatganoledig mewn sefydliadau mwy o faint fod pwrcasu yn aml y tu allan i'r trefniadau awdurdodedig hyn.

3.11 Fel y cam cyntaf, mae CPAUC yn bwriadu ailddechrau gweithgareddau ei grŵp nwyddau ar gyflenwadau adeiladu, sef maes â llawer o botensial i wneud arbedion yn ei farn ef oherwydd dulliau pwrcasu ar wasgar drwy lawer o gyflenwyr, gydag ychydig ohonynt â chontractau ffurfiol. Mae cynnydd pellach, yn enwedig ym maes rheoli contractau, yn dibynnu ar argaeledd adnoddau ychwanegol a gwybodaeth reoli well, er mwyn gallu nodi graddau'r achosion o anwybyddu contractau yn gywir. Ar hyn o bryd, nid oes gan CPAUC strategaeth ffurfiol sy'n nodi ei amcanion, gofynion o ran adnoddau a chynlluniau ar gyfer y dyfodol.

3.12 Fel y consortiwm rhanbarthol addysg uwch lleiaf, gallai CPAUC sicrhau darbodusrwydd maint drwy gydweithio'n agosach â chonsortia eraill, naill ai'n lleol neu ledled Cymru. Mae wedi gwneud cynnydd yn y maes hwn drwy drefnu contract melysion ar y cyd gyda Chonsortiwm Pwrcasu Addysg Bellach Cymru (CPABC) sydd â 26 o aelodau ledled Cymru. Mae gwaith pwrcasu ar y cyd yn llai datblygedig yn y sector addysg bellach yng Nghymru oherwydd dim ond yn 2000 y sefydlwyd y consortiwm ac un cyflogai amser llawn sydd ganddo. Mae gan gydweithio agosach y potensial i gynyddu pwer pwrcasu'r consortia, gan helpu i sicrhau prisiau a gwasanaeth gwell ar gyfer cynnyrch safonol a chreu mwy o adnoddau sy'n rheoli contractau ac yn datblygu cyflenwyr. Mae NWUPC eisoes wedi trefnu sawl contract ar y cyd gyda sefydliadau Addysg Bellach yn ei ardal. Yn y cyd-destun hwn mae CPAUC yn cefnogi ymdrechion Menter Caffael Cymru i ehangu graddau'r cydweithredu â'r sector addysg bellach yn llawn.

3.13 Nid yw'r holl wariant nad yw'n wariant ar gyflogau yn addas ar gyfer cwmpas y consortiwm, oherwydd bod llawer ohono yn benodol i'r sefydliad dan sylw, er enghraifft, gwariant ystadau ac offer gwyddonol arbenigol a ddefnyddir ar gyfer gwaith ymchwil. Dywedodd CPAUC wrthym fod yn rhaid i gontractau ddarparu'r dull gorau o gaffael ar gyfer pob sefydliad a chydnabu hawl sefydliadau unigol i beidio â chymryd rhan lle na ellir diwallu eu hanghenion unigol. Fodd bynnag, mae rheolwyr caffael yn aelod sefydliadau CPAUC yn derbyn bod ehangu sylweddol yn bosibl ac yn ddymunol ac y gellir sicrhau buddiannau pellach drwy gydweithredu'n lleol, yn enwedig ar gyfer sefydliadau llai o faint fel yn achos Athrofa Addysg Uwch Abertawe **(astudiaeth achos E)**, a thrwy ledaenu buddiannau arbenigedd nid yn unig o fewn y consortiwm ond y tu hwnt iddo **(astudiaeth achos F)**. Yn y cyfamser, mae swyddogion caffael o fewn CPAUC yn parhau i gydweithredu ledled Cymru a'r DU drwy gymryd rhan ym Menter Caffael Cymru a thrwy fod yn rhan o weithgorau cenedlaethol er mwyn datblygu a rheoli contractau ar gyfer sector addysg uwch y DU gyfan. Yn aml mae'r contractau hyn yn werth da am arian. Er enghraifft, penderfynodd CPAUC ddod â'i gontract deunydd ysgrifennu ei hun i ben a defnyddio un cenedlaethol, oherwydd bod y prisiau yn debyg iawn ac nid oedd y gwahaniaethau yn cyfiawnhau'r gost o dendro ei gontract ei hun. Fodd bynnag, mae'n bwysig cymharu costau'n ofalus ac yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod aelodau'r consortiwm yn cael y gwerth gorau o'r

## E Mae Athrofa Addysg Uwch Abertawe wedi manteisio ar gydweithio agosach â Phrifysgol Abertawe

Mae Athrofa Addysg Uwch Abertawe (AAUA) yn manteisio ar yr arbenigedd caffael sydd gan ei chymydog mwy o faint, sef Prifysgol Cymru Abertawe. Mae'r ddau sefydliad yn cwrdd yn rheolaidd i drafod materion caffael ac mae gan AAUA y cyfle i gymryd rhan mewn contractau mawr pan gânt eu haildendro gan y Brifysgol, gan gynnig y potensial ar gyfer darbodusrwydd maint o ran pris, gwasanaeth ac ymdrech gweinyddol. Dewisodd AAUA gymryd rhan yng nghontract llungopïo'r Brifysgol, a oedd tua 12.5 y cant yn rhatach na pharhau â'i chontractiwr ei hun a hefyd darparwyd peiriannau newydd o ansawdd gwell.

Nid oes un o'r sefydliadau eraill heb swyddogion caffael yn manteisio ar drefniadau tebyg ar hyn o bryd, ond mae Prifysgol Cymru, Aberystwyth yn gobeithio datblygu cysylltiadau agosach â sefydliadau cyfagos yn y sector addysg uwch a'r sector addysg bellach a allai arwain at fanteision tebyg.

*Ffynhonnell: Pennaeth Caffael, Prifysgol Cymru, Abertawe*

## F Mae trefniadau telathrebu newydd Prifysgol Caerdydd yn arbed tua £14,000 iddynt y flwyddyn



Mae Prifysgol Caerdydd wedi ymgymryd â chyfres o brosiectau sy'n gysylltiedig â thelathrebu ar ran y Brifysgol a sefydliadau CPAUC eraill. Cydnabu y gallai'r Brifysgol elwa ar delerau mwy cystadleuol a lefelau gwasanaeth gwell drwy gydgrynhoi gwariant tariff galwadau sefydliadol a chysylltu â darparwyr gwasanaeth gyda 'bloc' o fusnes sector cyhoeddus. Yn gyntaf, dadansoddodd y Brifysgol broffil ei galwadau yn ôl amser a'r math o alwad (lleol, cenedlaethol, ffôn symudol ac ati) ac yna cymharwyd tariff galwadau cwmnïau telathrebu gwahanol. O ganlyniad, arbedodd y Brifysgol £14,000 neu 11 y cant o'i thaliadau blaenorol ar alwadau.

**Ehangu i'r sector cyhoeddus**

Yna cyflwynodd Prifysgol Caerdydd a Menter Caffael Cymru y cytundeb hwn i gyrff y sector cyhoeddus yng Nghymru. Rhwng dechrau'r cynllun ym mis Mai 2003 a mis Ionawr 2004, mae pob awdurdod lleol yng Nghymru wedi cymryd rhan ac wedi arbed dros £900,000. Gwyddys hefyd fod sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus wedi negodi eu contractau gan ddefnyddio'r fframwaith fel sylfaen, er nad ydynt wedi 'derbyn' y fframwaith.

*Ffynhonnell: Yr Adran Gaffael, Prifysgol Caerdydd*

## PWYNTIAU ALLWEDDOL

**ar gydweithio**

- Mae gan gydweithio rhwng sefydliadau a sectorau, ar lefelau amrywiol, fuddiannau posibl sylweddol.
- Mae trefniadau cydweithio, yn enwedig rhwng consortia pwrcasu, yn sefydledig yn y sector a cheir lefel uchel o ryngweithio rhwng swyddogion pwrcasu yn y prif sefydliadau. Nid oes llawer wybodaeth fanwl ar gael ar achosion o anwybyddu contractau.
- Mae gan y consortia fuddiannau a sicrhawyd arbedion o tua 9.5 y cant o werth contractau CPAUC yn 2002-03.
- Yn gyffredinol mae contractau consortiwm yn cwmpasu nwyddau symlach, sef cynnyrch defnyddiadwy yn bennaf, a cheir lle sylweddol i ehangu cwmpas cyfanswm gwariant caffael dros y 9.2% a gyflawnir ar hyn o bryd. Yn achos CPAUC, bydd angen mwy o adnoddau arno i ddatblygu contractau newydd a rheoli pob contract yn fwy rhagweithiol.
- Ceir lle i weithio'n agosach gyda'r sector addysg bellach, gan sicrhau darbodusrwydd maint ym maes contractau a gwaith gweinyddol. Mae gwaith ar y cyd newydd ddechrau a bwriedir cydweithio ymhellach yn y dyfodol, gyda chymorth Menter Caffael Cymru.
- Mae angen arbenigedd er mwyn ymchwilio i gyfleoedd i sicrhau enillion o ran effeithlonrwydd a'u lledaenu'n ehangach. Wrth wneud hynny, nid oes angen gweithio o fewn cyfyngiadau sectoraidd neu ddaearyddol.

**Argymhellwn y dylai:**

- CPAUC wella ei ymdrechion i ehangu cwmpas contractau consortiwm a chyflwyno contractau newydd, yn seiliedig ar ddyfarniadau hyddysg o'r potensial ar gyfer arbedion ariannol a buddiannau nad ydynt yn ariannol;
- CPAUC ystyried gweithio'n agosach gyda Chonsortiwm Pwrcasu Addysg Bellach Cymru er mwyn sicrhau darbodusrwydd maint ym maes dyfarnu a gweinyddu contractau;
- sefydliadau barhau i gydweithio ar lefel leol a ledled y DU, ac ehangu cydweithio o'r fath lle ceir achos amlwg dros wneud hynny, er enghraifft drwy rannu arbenigedd gyda sefydliadau llai o faint, dyfarnu contractau ar y cyd a lledaenu arfer gorau. Dylai hyn gynnwys cydweithio â sectorau eraill lle bo'n briodol; a
- y Cyngor gefnogi'r gwaith o ehangu gweithgareddau consortia yn seiliedig ar strategaeth gytûn ar gyfer y sector sy'n ymgorffori'r prif dargedau ac argymhellion yn Gwell Gwerth Cymru. Lle y bo angen, dylai'r cyngor ystyried rhoi cymorth ariannol i CPAUC yn seiliedig ar dargedau cytûn a chydweithio effeithiol â grwpiau eraill er mwyn sicrhau bod adnoddau gweinyddol yn cael eu dosbarthu yn y ffordd fwyaf effeithlon.

cynnyrch sydd ar gael. Dengys profiad CPAUC nad yw cytundebau cenedlaethol bob amser yn darparu prisiau gwell, ac mewn rhai achosion gallant fod yn sylweddol ddrutach.

## Rheoli cyflenwyr a chontractau yn well

3.14 Ar hyn o bryd mae sefydliadau yn ymgymryd â'r mwyafrif o'u gweithgareddau caffael yn uniongyrchol, gan wario'r rhan fwyaf o'u cyllidebau nad yw'n wariant ar gyflogau heb ddefnyddio consortia pwrcasu neu drefniadau eraill ar y cyd. Mae hyn yn fwyaf cyffredin ar gyfer gwariant ar ystadau, gan gynnwys gwaith adeiladu a gwasanaethau proffesiynol, y mae'n debygol y bydd gan sefydliad ofynion penodol ar eu cyfer. Felly, mae'n hanfodol bod pob sefydliad yn gallu sicrhau'r gwerth mwyaf am arian o gaffael ar lefel sefydliadol. Mae gwerth am arian yn golygu llawer mwy na chymharu prisiau, ac efallai y bydd angen buddsoddi adnoddau ac arbenigedd yn sylweddol er mwyn nodi'r cyfleoedd gorau ar gyfer gwella.

## Nid yw rheoli cyflenwyr yn faes sydd wedi'i ddatblygu, ac nid yw rhai sefydliadau yn dilyn arfer da sylfaenol

3.15 Gall sefydliad sicrhau gwell gwerth am arian o'i gyflenwyr mewn sawl ffordd, yn amrywio o arfer da sylfaenol i agweddau mwy datblygedig sydd ar flaen y broses gaffael fodern. Ymhlith y rhain mae:

- *rhesymoli sylfaen y cyflenwr* fel bod busnes yn cael ei wneud gyda rhai cyflenwyr dibynadwy, er mwyn cael y pris a'r gwasanaeth gorau. Fel arfer mae hyn yn cynnwys lleihau nifer y cyflenwyr, er y gall olygu cynyddu'r nifer i leihau'r risg o orddibynnu ar un neu ddau gyflenwr ar gyfer cynnyrch sy'n strategol bwysig;

- *cadw rhestr o gyflenwyr cymeradwy,* er mwyn sicrhau bod pwrcaswyr yn defnyddio cyflenwyr a chontractau a aseswyd yn gywir o ran dibynadwyedd a gwerth am arian;
- *arfarnu ansawdd a pherfformiad cyflenwyr yn rheolaidd,* er mwyn sicrhau y cyrhaeddir safonau uchel;
- *cysylltu â chyflenwyr mewn ffordd agored ac yn rheolaidd,* gan eu helpu i ddeall a diwallu anghenion prynwyr;
- *datblygu ymwybyddiaeth fasnachol gadarn* drwy ddeall y farchnad y mae cyflenwyr yn gweithredu ynddi a phwysigrwydd perthnasol y prynwr i fusnes y cyflenwr; a
- *datblygu cydberthnasau agosach â chyflenwyr allweddol* ar gyfer gwaith caffael strategol bwysig, er mwyn helpu i sicrhau gwelliant parhaus a bod o fudd i'r prynwr a'r cyflenwr. Gall hyn gynnwys adolygu cadwyn gyflenwi'r cyflenwr ei hun i nodi gwendidau a allai beryglu ansawdd y gwasanaeth a roddir i'r prynwr.

3.16 Canfuom nad oedd y gwaith o reoli cyflenwyr ar draws y sector wedi'i ddatblygu. Hyd yn oed ar lefel sylfaenol ceir lle i wneud gwelliannau sylweddol, fel y canfuom yn ein harolwg o'r 13 o sefydliadau a oedd yn bodoli yn 2002-03:

- roedd gan y rhan fwyaf o sefydliadau gronfa ddata o gyflenwyr, yn darparu gwybodaeth sylfaenol am y cyflenwr, y math o wasanaeth a ddarparwyd a hanes pryniadau. Fodd bynnag, nid oedd gan ddau sefydliad restr o'r fath ac o'r 11 a oedd yn meddu arni, nid oedd dau yn gallu nodi faint o gyflenwyr a gynhwyswyd arni;
- nid oedd tri sefydliad yn gwirio cyflenwyr newydd, gan gynyddu'r risg o fethiant cyflenwyr; a
- dim ond pump o'r 13 o sefydliadau sy'n cofnodi perfformiad gwael gan gyflenwyr yn ffurfiol, er bod hyn yn cael ei wneud yn aml yn anffurfiol neu'n lleol o fewn unedau pwrcasu datganoledig.

3.17 Mae gwybodaeth reoli gyfyngedig a threfniadau caffael datganoledig yn aml yn rhwystro arfer gorau yn y gwaith o reoli cyflenwyr a chontractau. Yn ddelfrydol, cedwir gwybodaeth reoli gynhwysfawr am gyflenwyr yn ganolog ac fe'i defnyddir i reoli caffael yn rhagweithiol. Dylai hyn gynnwys nodi cyflenwyr cymeradwy (ar ôl rhesymoli nifer y cyflenwyr fel y bo'n briodol), gan ei gwneud yn ofynnol i bwrcaswyr ddefnyddio'r cyflenwyr cymeradwy hyn oni bai fod rheswm da dros beidio â gwneud hynny, monitro perfformiad cyflenwyr, ac adolygu'r rhestr o gyflenwyr yn rheolaidd er mwyn sicrhau ei bod yn parhau i ddiwallu anghenion y sefydliad. Fodd bynnag, dim ond os oes gweithgarwch caffael canolog gyda gwybodaeth reoli gynhwysfawr am gyflenwyr y mae hyn yn bosibl, ynghyd â'r awdurdod i atal pwrcaswyr rhag peidio â defnyddio contractau cymeradwy heb reswm da. Yn y rhan fwyaf o sefydliadau, ni fodlonir un neu ddau o'r gofynion hyn.

## Er bod llawer o gynnydd wedi'i wneud, gallai rhai sefydliadau resymoli cyflenwyr drwy gydgrynhoi busnes o fewn y sefydliad a sicrhau bod y defnydd gorau yn cael ei wneud o'r contractau sy'n bodoli eisoes

3.18 Mae'r defnydd o gonsortia pwrcasu yn sefydledig ar gyfer cynnyrch a gwasanaethau safonol a chyffredin (gweler paragraffau 3.7 - 3.13) ac mae hyn wedi helpu sefydliadau i wneud y gorau o'u pŵer prynu yn y meysydd hyn. Serch hynny, ceir rhywfaint o le o hyd i gydgrynhoi busnes ar lefel sefydliadol er mwyn sicrhau gwell gwerth am arian, yn enwedig ar gyfer contractau llai syml lle mae angen rhywfaint o arbenigedd ac adnoddau i'w hasesu. Er enghraifft, mae'r tîm caffael ym Mhrifysgol Cymru, Abertawe wedi llwyddo i gydgrynhoi ei fusnes ar gyfer peiriannau llungopïo a gwaredu gwastraff gydag un cyflenwr ym mhob achos, gan ostwng prisiau a chostau prosesu **(astudiaeth achos G)**. Fel gydag unrhyw negodi o'r fath mae'n bwysig cydbwyso arbedion cost yn erbyn ansawdd y gwasanaeth a'r risg i'r sefydliad yn sgîl strwythurau prisiau rhatach ond amhriodol.

3.19 Gellid gwneud arbedion tebyg mewn sefydliadau sydd â threfniadau caffael mwy rhanedig ar hyn o bryd. Er enghraifft, mae gan adrannau ym Mhrifysgol Caerdydd hawl i wneud eu trefniadau eu hunain ar gyfer llungopïo os yw gwerth y contract yn llai na £5,000, a mae hyn yn cyfyngu'r gyfle i gyfrif y galwad yn y brifysgol a mwyhau'r buddion o drefniadau a negodwyd yn ganolog (er nad yw rhain o bosibl bob amser y dewis gorau). Mae hefyd yn codi'r risg o adrannau yn gosod archebion o ychydig werth yn fynych gyda chyflenwr dewisach yn hytrach na wneud tendr am y busnes yn weddus. Ym Mhrifysgol Cymru, Aberystwyth, ceir strwythur datganoledig tebyg lle y gall adrannau bwrcasu nwyddau a gwasanaethau yn annibynnol ar ffynonellau allanol neu fewnol - ceir marchnad fewnol lle y gall adrannau o fewn y brifysgol bwrcasu nwyddau a gwasanaethau oddi wrth ei gilydd. O ganlyniad, ceir amrywiaeth o gontractau ac arferion pwrcasu sy'n annhebygol o ddarparu'r gwerth gorau am arian, er bod diffyg system ganolog ar gyfer rheoli perfformiad caffael yn golygu nad oes unrhyw ddata i nodi pa gontractau sy'n sicrhau gwell gwerth am arian. Mae'r swyddog caffael a benodwyd yn ddiweddar ym Mhrifysgol Cymru, Aberystwyth wedi cynnal dadansoddiad o wariant sy'n dynodi cwmpas i resymoli contractau mewn nifer o feysydd, gan gynnwys teithio busnes a chyflenwadau adeiladu. Bydd y meysydd hyn yn cael eu blaenoriaethu fel rhan o adolygiad manwl o drefniadau cyflenwi drwy'r brifysgol y bwriedir iddo ddechrau yn 2005 gan gymryd tair blynedd i'w gwblhau. Y nod yw nodi cyflenwyr cymeradwy ar gyfer pob maes priodol o fusnes y brifysgol, gan gydgrynhoi pryniadau lle y bo angen, a sefydlu system er mwyn sicrhau bod y cyflenwyr hyn yn cael eu defnyddio.

## G Prifysgol Cymru, Abertawe - gwella caffael drwy resymoli cyflenwyr

**Trefniadau llungopïo**

Mae gan Brifysgol Cymru, Abertawe gontract gydag un cyflenwr ar gyfer holl beiriannau llungopïo'r adrannau. O dan y cytundeb caiff peiriannau llungopïo eu prydlesu a'u newid bob tair blynedd, gan wneud y gorau o drosoledd y brifysgol gyda darpar gyflenwyr. Mae'r cytundeb presennol yn ei drydedd flwyddyn bellach.

Cyn dyfarnu ei chontract cyntaf nid oedd gan y Brifysgol unrhyw bolisi ynghylch peiriannau llungopïo ac roedd ganddi gymysgedd o offer a bwrcaswyd neu a brydleswyd. Cafwyd dros 100 o beiriannau llungopïo a phob un â thariff gwahanol. Yn dilyn dyfarnu'r contract disodlodd y Brifysgol ei pheiriannau llungopïo yn raddol gydag offer a gyflenwyd gan ei hunig gyflenwr cymeradwy pan ddaeth y cytundebau gwreiddiol i ben. Erbyn diwedd yr ail gytundeb, roedd y Brifysgol wedi disodli pob peiriant llungopïo ac wedi arbed o leiaf £250,000.

O dan y cytundeb mae'r contractiwr yn cyflwyno un anfoneb i'r Brifysgol bob chwarter ar gyfer talu pob prydles. Mae hyn yn lleihau nifer yr anfonebau a delir y flwyddyn o oddeutu 500, gan leihau'r amser y mae'r staff yn ei dreulio ar brosesu trafodion arferol.

**Rheoli Gwastraff**

Ym mis Ionawr 2002 dyfarnodd y Brifysgol gontract rheoli gwastraff integredig am y tro cyntaf. O dan y contract hwn mae gan y Brifysgol un cyflenwr bellach sy'n gyfrifol am gasglu'r holl wastraff, ac eithrio gwastraff peryglus sydd, oherwydd gofynion cyfreithiol, yn cael ei gasglu ar wahân.
Mae'r cyflenwr a benodwyd yn gweithio gyda'r Brifysgol i leihau'r swm a gaiff ei dirlenwi i'r graddau mwyaf posibl drwy nodi'r gwastraff y gellir ei ailgylchu a darparu biniau ailgylchu mewn lleoliadau priodol er mwyn hwyluso'r gwaith o'i gasglu. Am fod y trefniadau a oedd ar waith cyn dyfarnu'r contract hwn mor rhanedig ni all y Brifysgol nodi arbedion heblaw am y £3,750 y flwyddyn ar Dreth Dirlenwi. Mae'r Brifysgol a'r contractiwr wedi cytuno ar dargedau ar gyfer swm y gwastraff i'w ailgylchu ac mae'r rhain yn llunio rhan o'r broses o fonitro'r contract.

*Ffynhonnell: Rheolwr Caffael Prifysgol Cymru, Abertawe*





3.20 Mae'n bwysig unwaith y nodir contractau cymeradwy, eu bod yn cael eu rhestru a'u defnyddio gan bwrcaswyr lle bynnag y bo'n bosibl. I wneud hyn mae angen rhestr o gyflenwyr cymeradwy a rheolaethau er mwyn atal "gwariant anarferol" - h.y. pwrcasu y tu allan i drefniadau cymeradwy. Canfuom fod sefydliadau yn amrywio o ran cydymffurfio â'r arfer da hwn. Mae gan Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd system ganolog lle y mae'n rhaid gosod pob archeb gyda chyflenwyr cymeradwy ar system pwrcasu awtomataidd, a bydd yr uned bwrcasu yn atal cymeradwyo cyflenwyr nad ydynt wedi'u harfarnu'n llawn. Yn y rhan fwyaf o sefydliadau eraill gellir gosod archeb pwrcasu heb i'r adran bwrcasu wybod am hynny, sy'n golygu na all reoli'r defnydd o gyflenwyr cymeradwy yn uniongyrchol. Mae gwybodaeth reoli am raddau'r achosion o anwybyddu contractau yn gyfyngedig ac yn annibynadwy yn gyffredinol am ei bod yn canolbwyntio ar gyflenwyr yn hytrach na chynnyrch, ac nid yw bob amser yn bosibl i nodi p'un a yw cyflenwyr yn cael eu defnyddio at ddibenion dilys nas cwmpesir gan gontract cymeradwy.

3.21 Rhaid adolygu contractau mawr yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i ddarparu'r gwerth gorau posibl am arian. Fodd bynnag, mae graddau ac amlder meincnodi o fewn y sector yn gyfyngedig, gyda dim ond pedwar sefydliad yn dweud wrthym eu bod yn ei wneud yn ffurfiol, tra bod wyth yn ei wneud yn anffurfiol. Mae'r rhan fwyaf o gontractau ar gyfer cynnyrch defnyddiadwy fel bwyd, deunydd ysgrifennu a TG yn seiliedig ar gyfres o ostyngiadau o restr brisiau'r cyflenwr. Ar gam y tendr, bydd prynwr yn nodi'r eitemau mwyaf cyffredin ac yn negodi'r gostyngiadau mwyaf, sef 80 y cant fel arfer, ar gyfer y cynnyrch hwn, a elwir yn eitemau craidd. Ceir gostyngiad ar gyfer cynnyrch arall i raddai llai, efallai o 50 y cant, gan eu gwneud bron ddwywaith yn ddrutach nag eitemau craidd. Felly, mae'n bwysig nodi'r eitemau craidd cywir, er mwyn sicrhau y cyfyngir ar y defnydd o eitemau nad ydynt yn rhai craidd gymaint â phosibl, ac i adolygu'r rhestr graidd yn rheolaidd er mwyn sicrhau ei bod yn parhau i fod yn briodol at ddefnydd y sefydliad. Mae hyn yn hynod bwysig gyda chontractau cenedlaethol, nas datblygir yn benodol i ddiwallu anghenion un sefydliad arbennig. Fel arfer dylai prynwr anelu at sicrhau bod 70% i 80% o bryniadau yn eitemau craidd. Wrth siarad â swyddogion caffael, canfuom fod y consortia yn adolygu eu rhestrau craidd yn rheolaidd a bod sefydliadau, ar gyfer contractau allweddol, fel y contract deunydd ysgrifennu cenedlaethol a ddefnyddir gan CPAUC, yn gallu ychwanegu eu heitemau craidd eu hunain i'r rhestr a bod y rhan fwyaf yn manteisio ar y cyfle i wneud hynny. Canfuom fod y defnydd o eitemau craidd yn CPAUC yn amrywio rhwng 35 y cant ar gyfer deunydd ysgrifennu i dros 70 y cant ar gyfer cynnyrch arlwyo. Dywedodd swyddogion pwrcasu wrthym fod y defnydd o eitemau craidd rhwng 50% a 60% yn gyffredinol, gan awgrymu rhywfaint o gwmpas i safoni ymhellach a gwneud arbedion cost dilynol. Mae hyn yn debygol o fod ar ei fwyaf lle datganolwyd y broses gaffael a lle nad oes yn rhaid i bwrcaswyr ddefnyddio cyflenwyr cymeradwy neu restrau craidd.



## Ychydig o gynnydd a wnaed o ran yr agweddau mwy datblygedig ar reoli cyflenwyr ond ceir rhai enghreifftiau o arfer da

3.22 Unwaith y caiff arfer da sylfaenol ei sefydlu, gall cyflenwyr a reolir yn dda gyflwyno buddiannau wrth i gydberthnasau ddatblygu ac wrth i ofynion y sefydliad gael eu deall yn well. Mae gwaith adeiladu yn faes gwariant sy'n strategol bwysig ond yn y gorffennol mae wedi dioddef oedi, gorwario a dadleuon ynghylch ansawdd gwaith. Yn ystod y 1990au, daeth cyfres o adolygiadau annibynnol (Adroddiad Latham[11] ac Adroddiad Egan[12] yn bennaf) i'r casgliad mai cydberthnasau croes â chyflenwyr a phryder anystyriol ynghylch pris contract oedd yn bennaf gyfrifol a bod perthynas fwy agored a chydweithredol rhwng y cyflenwr a'r cwsmer yn hanfodol i wella'r sefyllfa. Awgrymwyd y gellid osgoi'r problemau hyn drwy drefniadau cydweithredu hirdymor sef partneriaeth.

3.23 Ceir dau fath o bartneriaeth: partneriaeth prosiect ar gyfer un prosiect a phartneriaeth strategol, pan fo'r cwsmer a'r contractiwr yn cydweithio ar gyfres o brosiectau i hyrwyddo gwelliant parhaus. Fe'i defnyddiwyd yn eang yn y sector preifat am lawer o flynyddoedd ac mae bellach yn dod yn fwy cyffredin yn y sector cyhoeddus. Mae'r cysyniad yn seiliedig ar y rhagosodiad y bydd natur agored a hirdymor y cytundeb yn galluogi'r ddau barti i ddeall anghenion ei gilydd yn well, a chydag amser y bydd hyn yn arwain at well gwasanaeth i'r cwsmer a chostau is. Dynoda ymchwil annibynnol y potensial ar gyfer arbedion o rhwng dau y cant a 10 y cant ar gyfer partneriaeth prosiect a hyd at 30 y cant ar gyfer partneriaeth strategol. Mae'n addas iawn ar gyfer gwasanaethau cymhleth lle mae angen meddu ar wybodaeth fanwl am anghenion unigryw y cwsmer i ddarparu gwasanaeth effeithiol. Fel arfer mae'n cynnwys yr holl nodweddion canlynol neu sawl un ohonynt:

- cystadleuaeth gychwynnol i ddewis partner dibynadwy, gyda chontract am dair blynedd i bum mlynedd;
- ymrwymiad i welliant parhaus, a ategir gan system mesur perfformiad gytûn sy'n cynnwys targedau mesuradwy clir (er enghraifft, lleihau costau, lleihau oedi a boddhad cwsmeriaid);
- cyfrifo llyfr agored, fel bod y ddau barti yn ymwybodol o'r costau ac y gellir cytuno ar bris targed teg sydd o fudd i'r ddau barti; a
- cymhelliant i "rannu elw a rhannu poen" - h.y. rhennir canlyniadau gorwario ac arbedion rhwng y cyflenwr a'r cwsmer mewn ffordd briodol.

3.24 Nid yw partneriaethau wedi'u datblygu'n fawr yn y sector addysg uwch, ond mae Prifysgol Cymru, Abertawe wedi eu defnyddio yn ei gweithgarwch rheoli ystadau ar gyfer gwasanaethau proffesiynol a mân waith adeiladu **(astudiaeth achos H)**. Ceir lle i ehangu'r arfer i sefydliadau eraill â gwariant sylweddol ar ystadau, ac i sefydliadau gydweithio er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r arbenigedd a'r adnoddau sydd eu hangen i sicrhau bod y broses yn gweithio'n effeithiol.

### H Partneriaeth Prifysgol Cymru, Abertawe

Mae Prifysgol Cymru, Abertawe yn canfod buddiannau mawr yn sgîl ei gwasanaethau rheoli gwaith adeiladu ac ystadau o'i chytundebau fframwaith partneriaeth ar gyfer ymgynghorwyr dylunio, ymgynghorwyr rheoli gwaith adeiladu a chontractwyr mân weithiau. Ar gyfer partneriaeth prosiect, dewiswyd y timau o gontractwyr drwy arferion gwerth gorau ac asesiad o'u gorbenion, elw a strwythurau ffioedd. Dim ond ar ôl i'r Brifysgol gytuno ar gost targed ar gyfer y prosiect gyda'r tîm cyfan o gyflenwyr y llofnodwyd y contract. Roedd hyn yn groes i'r ymagwedd flaenorol, lle'r oedd y Brifysgol yn gosod elfennau amrywiol y prosiect (dylunio, arolygu, adeiladu) ar wahân yn seiliedig ar broses dendro a oedd yn annog ymgeiswyr i roi'r pris isaf posibl yn hytrach nag ystyried gwerth mwy hirdymor, ac i elwa ar newidiadau dilynol i'r dyluniad drwy gosbi'r cleient yn drwm am amrywiadau. Erbyn hyn negodir unrhyw newidiadau yn agored gyda'r contractwyr, gyda chymorth cyfrifo llyfr agored a gellir nodi'r effaith ar gyllid y cyflenwyr. Mae Prifysgol Cymru, Abertawe wedi trefnu nifer o gontractau adeiladu ers i'r bartneriaeth prosiect ddechrau yn 2001 ac mae pob un wedi cael ei wneud o fewn cost y contract.

Hefyd mae'r brifysgol wedi cytuno ar gytundebau partneriaeth strategol gyda sawl contractiwr allanol er mwyn gwneud mân weithiau. Trefnwyd contractau am gyfnodau o dair blynedd gydag opsiwn i'w hymestyn am ddwy flynedd. Mae gan y brifysgol dendrau anffurfiol i ddewis contractwyr ar gyfer mân weithiau, gan osgoi'r angen am weithdrefnau ffurfiol costus bob tro yr ymgymerir â phrosiect.

*Ffynhonnell: Pennaeth Caffael, Prifysgol Cymru, Abertawe*

11 *Constructing the Team, adolygiad ar y cyd gan y Llywodraeth a'r diwydiant adeiladu (Syr Michael Latham, 1994).*
12 *Rethinking Construction, Syr John Egan (1998).*

## PWYNTIAU ALLWEDDOL

**ar reoli cyflenwyr a chontractau yn well**

- Gwneir y mwyafrif o waith caffael y tu allan i drefniadau sefydlog ar y cyd, i adlewyrchu anghenion penodol sefydliadau unigol.
- Nid yw'r gwaith o reoli cyflenwyr wedi'i ddatblygu, gyda rhai sefydliadau yn peidio â dilyn arfer da sylfaenol wrth gadw rhestr o gyflenwyr cymeradwy, gwirio cyflenwyr newydd a chofnodi perfformiad cyflenwyr yn ffurfiol.
- Mae'r rhan fwyaf o sefydliadau wedi cymryd camau i resymoli cyflenwyr a chydgrynhoi busnes i sicrhau gwell gwerth am arian ond gellid gwneud mwy o gynnydd. Mae gweithgarwch pwrcasu datganoledig a gwybodaeth reoli gyfyngedig yn ei gwneud yn anodd i reoli achosion o anwybyddu contractau.
- Ceir cwmpas i reoli contractau yn fwy rhagweithiol a safoni ymhellach er mwyn sicrhau gwell gwerth o gontractau presennol.
- Nid yw'r sector wedi datblygu'r agweddau mwy datblygedig ar reoli cyflenwyr, ond ceir tystiolaeth o fuddiannau adeiladu cydberthnasau mwy hirdymor gyda chyflenwyr.


**Argymhellwn y dylai:**

- sefydliadau gynnal neu ddatblygu system rheoli cyflenwyr priodol. Dylai gynnwys cronfa ddata o gyflenwyr cymeradwy, gwirio cyflenwyr newydd yn gywir a system ffurfiol ar gyfer monitro perfformiad cyflenwyr;
- sefydliadau barhau i geisio rhesymoli cyflenwyr, tra'n sicrhau bod contractau yn cael eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn werth am arian;
- sefydliadau wneud y defnydd gorau o'r strwythur gostyngiadau a negodwyd ganddynt ar gyfer contractau cynnyrch defnyddiadwy, gan gymryd camau ymarferol i gynyddu'r defnydd o eitemau craidd; a
- lle y bo'n briodol, dylai sefydliadau ystyried buddiannau partneriaethau a chydweithredu hir dymor arall gyda chyflenwyr allweddol.

## Mae'r rhan fwyaf o sefydliadau wedi profi'r farchnad am wasanaethau nad ydynt yn rhai craidd ond ceir amharodrwydd o hyd i wneud hynny mewn ffordd gynhwysfawr

3.25 Profi'r farchnad yw'r broses o brofi gwerth am arian gwasanaethau mewnol yn erbyn tendrau gan gwmnïau allanol. Bydd hyn yn arwain at gadw gwaith yn fewnol, neu osod gwaith ar gontract i gontractiwr allanol. Argymhellodd Gwell Gwerth Cymru y dylai pob corff yn y sector cyhoeddus ddilyn egwyddorion "Gwerth Gorau" a ddefnyddiwyd o fewn llywodraeth leol pan gyhoeddwyd yr adroddiad yn 2001. Mae hyn yn cynnwys proses "ymgynghori, cymharu, herio a chystadlu" ar gyfer gwasanaethau nad ydynt yn rhai craidd fel arlwyo, cynnal a chadw adeiladau a thir, glanhau, cyflogres, gwasanaethau cyfreithiol, cyfrifyddiaeth ac archwiliad mewnol. Daeth yr adroddiad i'r casgliad mai'r rhai sy'n derbyn y gwasanaethau a ddylai elwa arnynt yn bennaf, drwy gyflwyno'r gwasanaethau hyn i'r posibilrwydd o gystadleuaeth a phennu safonau ansawdd priodol.

3.26 Mae'r rhan fwyaf o sefydliadau yn y sector addysg uwch yng Nghymru wedi profi'r farchnad i ryw raddau neu'n bwriadu gwneud hynny. Dengys **Ffigur 15** pa sefydliadau sydd wedi adolygu pedwar gwasanaeth sy'n wynebu cystadleuaeth yn aml. Yn y rhan fwyaf o'r achosion hyn dewiswyd contractiwr allanol, ond nid yw'r buddiannau wedi bod yn rhai ariannol o reidrwydd ac mewn rhai achosion gwnaed arbedion a gwelliannau mewn ansawdd drwy ddarparu rhai gwasanaethau neu bob gwasanaeth yn fewnol eto. Dywedodd swyddogion caffael wrthym fod rhywfaint o amwysedd ynghylch profi'r farchnad yn eu sefydliadau, ac mewn rhai achosion gwnaed penderfyniadau ar sail polisïau i beidio â threfnu contractau allanol ar gyfer gwasanaethau allweddol **(Ffigur 16)**. Mae'r sefydliadau hynny nad yw eu gwasanaethau mewnol wedi bod yn agored i gystadleuaeth yn eang yn y gorffennol yn bwriadu gwneud hynny erbyn hyn. Mae Prifysgol Cymru, Abertawe yn bwriadu ystyried amrywiaeth o wasanaethau yn eu tro dros gyfnod o bedair blynedd. Mae Prifysgol Cymru, Aberystwyth wrthi'n profi marchnad ei gweithgarwch archwilio mewnol ac yn cynnal adolygiad o wasanaethau contract a allai arwain at brofi marchnad glanhau, diogelwch a chynnal a chadw tir [gan gadarnhau gydag Aberystwyth yr hyn y mae'r adolygiad yn ei olygu]. Mae'r brifysgol yn bwriadu ad-drefnu ei gwasanaethau arlwyo yn fewnol cyn ystyried trefnu contract allanol. Dim ond tri sefydliad yn y sector a oedd yn trefnu contractau allanol ar gyfer eu gwasanaethau arlwyo.





## 15 Mae'r rhan fwyaf o sefydliadau wedi profi marchnad rhai gwasanaethau sy'n wynebu cystadleuaeth yn aml

| Sefydliad | Gwasanaeth | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Arlwyo | Glanhau | Diogelwch | Cynnal a chadw tir |
| Prifysgol Morgannwg | ✓ | ✓ | ✓ | ✗ |
| Prifysgol Cymru, Aberystwyth | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ |
| Prifysgol Cymru, Bangor | ✗ | ✓ | ✗ | ✗ |
| Prifysgol Cymru Caerdydd | ✗ | ✓ | ✗ | ✓ |
| Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan | ✓ | ✗ | ✗(Nodyn1) | ✗ |
| Prifysgol Cymru, Abertawe | ✗ | Yn rhannol | ✗ | ✗ |
| Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Coleg Prifysgol Cymru Casnewydd | ✗ | ✓ | Yn rhannol | Yn rhannol |
| Sefydliad Addysg Uwch Gogledd Ddwyrain Cymru | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Athrofa Addysg Uwch Abertawe | ✗ | Yn rhannol | ✓ ✗ (heblaw am offer) | ✗ |
| Coleg y Drindod Caerfyrddin | ✓ | ✗ | ✗ - ond caiff ei feincnodi'n rheolaidd | ✓ |
| Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru | ✓ | ✓ | ✗ | Yn 2005 |

**NODIADAU**

1 Argymhellodd yr adroddiad archwilio ei gadw'n fewnol.

2 caiff y gwaith o reoli cyfleusterau yng Ngholeg Meddygaeth Prifysgol Cymru ei wneud gan Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro, sy'n rheoli'r ysbyty athrofaol, o dan gytundeb lefel gwasanaeth.

*Ffynhonnell: Data'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol gan staff caffael mewn sefydliadau*

## 16 Mae profi'r farchnad wedi arwain at ganlyniadau cymysg

**Efallai mai nid dim ond arwain at fuddiannau ariannol a wna trefnu contractau allanol**

Darparwyd gwasanaethau glanhau Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd (UWIC) gan Gyngor Sir Caerdydd tan 2003 pan drefnwyd contractau allanol ar eu cyfer. Prif fanteision y contract newydd yw cymhelliannau perfformiad cliriach a system sy'n trosglwyddo costau absenoldebau staff i'r contractiwr. Cyn hynny UWIC oedd yn gyfrifol am wynebu'r risg hon. Hefyd gwnaed arbediad ariannol cymedrol o'r defnydd mwy effeithlon o staff glanhau, gan leihau costau cyflogaeth.

Trefnir contractau allanol ar gyfer gwaith cynnal a chadw tir hefyd, ond nid yw wedi lleihau costau'n sylweddol. Fodd bynnag, ym marn UWIC mae ansawdd y gwasanaeth wedi gwella'n fawr.

**Gallai'r opsiwn mewnol ddarparu gwell gwerth am arian**

Aildrefnwyd contract mewnol ar gyfer staff glanhau Athrofa Addysg Uwch Abertawe, gan arwain at arbedion o £50,000. Penderfynodd Llanbedr Pont Steffan aildrefnu contract mewnol ar gyfer y gwasanaeth arlwyo ar ôl pryderon ynghylch ansawdd.

**Gall y broses o brofi'r farchnad arwain at welliannau, hyd yn oed os cedwir y gwasanaeth yn fewnol**

Yn 2001 penododd UWIC ymgynghorydd annibynnol i adolygu ei gwasanaethau arlwyo, ac argymhellodd y dylid trefnu contract allanol i atgyfnerthu'r gwaith o'i reoli. Derbyniodd yr adolygiad na fyddai arbedion ariannol yn deillio o drefnu contractau allanol, a phenderfynodd UWIC fynd i'r afael â'r mater rheoli yn benodol yn hytrach na threfnu contract allanol ar gyfer y gwasanaeth arlwyo cyfan, gyda'r gost ddilynol a'r amhariaeth i'r staff.

**Gall sefydliadau wneud penderfyniadau polisi i gadw gwasanaethau'n fewnol heb brofi'r farchnad**

Yn ddiweddar cynhaliodd rheolwyr arlwyo mewnol Prifysgol Cymru Aberystwyth adolygiad mawr o wasanaethau yn 2003 er mwyn llunio cynllun busnes ar gyfer y gwasanaeth, ac yn arbennig i fynd i'r afael â'r diffyg gweithredu sylweddol. Argymhellodd yr adolygiad newidiadau sylweddol i staffio a darparu gwasanaethau, ond mae wedi gohirio unrhyw benderfyniadau ar drefnu contractau allanol tra bod mesurau mewnol yn cael eu gweithredu a'u hasesu, ac oherwydd i adroddiadau eraill yn y sector addysg uwch ddynodi nad oedd gwasanaethau allanol yn ymatebol nac yn llwyddiannus o ran diwallu anghenion myfyrwyr a morâl staff a niweidiwyd.

Penderfynodd Prifysgol Cymru Caerdydd Caerdydd fabwysiadu polisi o beidio â threfnu contractau allanol ar gyfer arlwyo neu ddiogelwch hefyd.

*Ffynhonnell: Asesiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol o wybodaeth a roddwyd gan sefydliadau addysg uwch*

3.27 Mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn awgrymu nad yw profi'r farchnad wedi arwain at arbedion ariannol bob tro, ond mae'r broses wedi arwain at fuddiannau eraill a dylai arwain at fabwysiadu'r opsiwn gwerth gorau pan gynhelir yr ymarfer. Mae penderfyniadau i beidio â phrofi'r farchnad yn deillio o bryderon ynghylch ansawdd ac ymatebolrwydd y gwasanaeth a'r effaith ar y staff, ac mewn rhai achosion cyfyngiadau o ran adnoddau. Mae profi'r farchnad yn llawn yn drafferthus ac yn golygu defnydd dwys o adnoddau ynghyd â chreu ansicrwydd ymysg y staff a effeithir. Ateb posibl, fel y mabwysiadwyd gan UWIC ar gyfer ei gwasanaethau arlwyo, yw cynnal adolygiad cychwynnol i feincnodi perfformiad y gweithgarwch mewnol ac i nodi ei gryfderau a'i wendidau (camau cyntaf y broses gwerth gorau). Yna, gall hyn lywio penderfyniad ynghylch p'un a ellir cyfiawnhau profi'r farchnad yn llawn ai peidio, o ystyried perfformiad a phwysigrwydd strategol y gwasanaeth. Yn fwy cyffredinol, mae'n bwysig adolygu perfformiad pob gwasanaeth yn rheolaidd.

## Caffael cynaliadwy

3.28 Defnyddir y term caffael cynaliadwy i ddisgrifio cyfraniad gweithgarwch caffael i'r agenda datblygu cynaliadwy. Mae gan y Cynulliad Cenedlaethol ddyletswydd statudol i hyrwyddo datblygu cynaliadwy ac mae'n ei ddiffinio fel "datblygu sy'n diwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.[13] Mae hyn yn cynnwys bodloni amcanion amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd ar yr un pryd, a gall fod yn anodd i gyflawni'r cydbwysedd hwn yn ymarferol. Mae'n cwmpasu materion fel y defnydd o adnoddau, llygredd, gwella sefyllfa grwpiau difreintiedig ac atgyfnerthu cymunedau lleol. Yn ymarferol, mae cyfraniad gwaith caffael i'r nodau hyn yn perthyn i dri maes eang:

a) *Lleihau effaith negyddol gweithrediad sefydliad ar yr amgylchedd,* er enghraifft drwy fwyta llai, drwy newid i gynhyrchion sy ddim yn niweidiol i'r amgylchedd a hyrwyddo newid o ran cyflenwyr.Ymhlith enghreifftiau mwy amlwg mae ynni adnewyddadwy, papur a ailgylchwyd a bwyd organig, ond gellir asesu effaith amgylcheddol ystod lawer ehangach o gynnyrch. Byddai hyn yn cynnwys ffactorau fel gofynion ynni dros oes y cynnyrch, y defnydd o ddeunyddiau a ailgylchwyd neu ddeunyddiau peryglus, y potensial i ailgylchu neu ailddefnyddio cynnyrch a threfniadau gwaredu;

b) *cynorthwyo busnesau bach a chanolig eu maint,* yn enwedig lle mae hyn yn helpu busnesau lleol, llai o faint ac felly'n helpu i gryfhau'r economi leol. Gall rhoi mwy o rôl i fusnes lleol hefyd arwain at fuddiannau amgylcheddol, oherwydd mae'n llai tebygol y bydd nwyddau yn cael eu cludo pellter hir, gan leihau llygredd. Mae Swyddfa Masnach y Llywodraeth wedi awgrymu ffyrdd amrywiol y gall cyrff cyhoeddus helpu busnesau bach a chanolig eu maint i sicrhau busnes cyhoeddus heb beryglu gwerth am arian neu dorri rheoliadau caffael sy'n atal ffafrio busnesau lleol. Ymhlith y rhain mae rhannu busnes yn unedau llai (er mwyn galluogi cwmnïau llai o faint â chapasiti is i weithredu yn y farchnad), hyrwyddo cyfleoedd busnes drwy gynnal "digwyddiadau cwrdd â'r prynwr", gan roi adroddiadau da i gyflenwyr a hysbysebu contractau mewn un lle, er enghraifft ar dudalen y we y ceir mynediad hawdd iddi; a

### PWYNTIAU ALLWEDDOL


**ar brofi'r farchnad**

- Mae'r rhan fwyaf o sefydliadau wedi profi marchnad rhai gwasanaethau nad ydynt yn rhai craidd o leiaf, ond mae sawl sefydliad heb wneud hynny, weithiau oherwydd bod penderfyniad polisi wedi'i wneud i gadw gwasanaethau penodol yn fewnol.
- Lle profwyd y farchnad, mae'r canlyniadau wedi bod yn gymysg. Yn nodweddiadol bu rhai buddiannau nad oeddent yn ariannol a rhai arbedion cost, ond yn y rhan fwyaf o achosion nid oeddent yn sylweddol. Weithiau mae'r opsiwn mewnol yn rhatach a/neu yn darparu gwell ansawdd.
- Mae angen arbenigedd ac adnoddau i brofi'r farchnad ac mae angen ei gyfiawnhau drwy berfformiad a phwysigrwydd perthnasol y gwasanaeth.

**Argymhellwn y dylai:**

- sefydliadau ddatblygu rhaglen o adolygiadau gwerth gorau o wasanaethau nad ydynt yn rhai craidd, a allai arwain at brofi'r farchnad yn llawn, fel rhan o'u strategaethau caffael. Dylid seilio hyn ar y dystiolaeth sydd ar gael ar fuddiannau tebygol profi'r farchnad ar gyfer y gwasanaethau dan sylw.

13 *Cynllun Datblygu Cynaliadwy Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Tachwedd 2000 wedi'i seilio ar y diffiniad a ddefnyddiwyd gan Gomisiwn y Byd ar Yr Amgylchedd a Datblygiad.*



c) yn fwy cyffredinol, *hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol,* drwy wobrwyo cyflenwyr sy'n dilyn codau moesegol neu sy'n creu buddiannau ar gyfer grwpiau difreintiedig. Ymhlith yr enghreifftiau mae cynnyrch "masnach teg" sy'n sicrhau incwm sylfaenol i gynhyrchwyr bach mewn gwledydd sy'n datblygu, cymorth i fentrau cymdeithasol ac yn ystyried polisïau iechyd a diogelwch a hyfforddiant fel rhan o'r broses o arfarnu cyflenwyr.

## Ystyrir cynaliadwyedd yn gynyddol yn y sector addysg uwch

3.29 Mae caffael cynaliadwy yn ddatblygiad eithaf diweddar ac ychydig o sefydliadau sydd wedi datblygu polisïau neu strategaethau penodol. Fodd bynnag, yn gyffredinol mae sefydliadau yn gwerthfawrogi materion cynaliadwyedd ond nodir bod prinder adnoddau i wneud y gwaith manwl angenrheidiol (er enghraifft datblygu'r gadwyn gyflenwi) er mwyn sefydlu caffael cynaliadwy yn ehangach. Fodd bynnag, ceir enghreifftiau o arferion caffael cynaliadwy:

- yn ddiweddar mae sawl sefydliad wedi sefydlu grwpiau trawsweithredol i ddatblygu polisi cynaliadwyedd, lle cynrychiolir staff caffael. Er enghraifft mae'r grŵp ym Mhrifysgol Cymru, Aberystwyth wedi nodi rheoli gwastraff ac ailgylchu, trydan "gwyrdd" a chadwraeth ynni fel blaenoriaethau;
- Mae gan NWUPC bolisi amgylcheddol sy'n ymwneud a'i holl gytundebau ac mae caffael cynaliadwy yn rhan o'i strategaeth;
- dywedodd pedwar o'r 13 o sefydliadau a ymatebodd i'n harolwg wrthym eu bod yn monitro perfformiad amgylcheddol eu cyflenwyr a dywedodd tri sefydliad eu bod yn bwriadu gwneud hynny. Mewn rhai achosion, mae hyn wedi cwmpasu cynnwys ffactorau amgylcheddol mewn meini prawf gwerthuso tendrau (Ffigur 17);
- erbyn hyn mae Prifysgol Caerdydd yn pwrcasu ei holl drydan o ffynonellau adnewyddadwy;
- mae sawl sefydliad yn prynu cynnyrch "Masnach Teg", yn bennaf mewn ymateb i alw'r cwsmer mewn mannau arlwyo, ac mae Prifysgol Cymru, Abertawe wedi derbyn "statws masnach teg"; a

### 17 Enghreifftiau o arferion datblygu cynaliadwy

Cynhwysodd **Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru** feini prawf amgylcheddol wrth werthuso tendrau ar gyfer rhewgelloedd labordy. Ymhlith y rhain roedd effeithlonrwydd ynni'r offer, y gost ynni dros oes y cynnyrch, cyfran y cynnyrch a ailgylchwyd ac y gellir ei hailgylchu ar ôl ei waredu, y dull o'i waredu, trin a thrafod nwyon peryglus a'r defnydd o ddeunydd pacio.

Yn 2003 penderfynodd *Coleg y Brifysgol Cymru Abertawe safoni defnyddio papur wedi'i ailgylchu. Gwnaethpwyd hyn yn y lle cyntaf i gynilo arian drwy ddefnyddio papur pur o'r radd uchaf yr hyn a ddefnyddiwyd gan rai adrannau, gyda dau gynnyrch safonol wedi'u hail-gyrchu y mae'r brifysgol yn derbyn disgownt sylweddol amdanynt. Mae hyn wedi arwain at fuddion ariannol ac amgylchedd er bod hi'n bosibl prynu graddau cyfartal o bapur pur am brisiau ychydig yn isel.* **Ar ran CPAUC,** mae **UWIC** wedi negodi i brynu cynnyrch llaeth organig yn uniongyrchol gan gwmni bach Cymreig yn hytrach na thrwy'r cyflenwr, gan gynyddu elw'r cwmni tra'n arbed pedair ceiniog y carton ar gyfer yr aelodau hynny o CPAUC sy'n elwa ar y trefniant.

*Ffynhonnell: Pennaeth Caffael Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru, Prifysgol Cymru, Abertawe ac UWIC*

- defnyddir papur a ailgylchwyd yn gynyddol at ddibenion cyffredinol, gyda rhai sefydliadau yn ei ddefnyddio bob tro **(Ffigur 17)**.

3.30 Mae Menter Caffael Cymru wrthi'n cynnal dau brosiect braenaru: un ar gaffael cynaliadwy a'r llall i ddatblygu rôl busnesau bach a chanolig eu maint (sef y rhai â llai na 250 o gyflogeion). Disgwylir cyhoeddi canllawiau ar gaffael cynaliadwy ar ddiwedd 2004 ac mae UWIC wrthi'n cynnal rhaglen beilot yn seiliedig ar yr ymagwedd a argymhellir. Mae hyn yn cydnabod bod caffael cynaliadwy yn faes cymhleth y mae angen ei integreiddio'n llawn mewn polisi cynaliadwyedd ehangach, a ddatblygir gan bobl ar draws y sefydliad. Prif nodweddion yr ymagwedd arfaethedig yw:

- bod datblygu cynaliadwy yn faes cymhleth â goblygiadau hirdymor, felly dylid mabwysiadu polisi o newid cynyddol;
- yr angen am arbenigedd ym maes caffael wrth ddatblygu polisi;

- pennu amcanion clir a sefydlu gwaelodlin er mwyn mesur cynnydd;
- canolbwyntio ar adolygu polisi a gweithdrefnau i ddechrau, tra'n dechrau gwneud gwaith ymarferol hefyd yn y meysydd hynny a fydd yn rhoi'r budd mwyaf.

3.31 Hanfod caffael cynaliadwy yw budd hirdymor ac ystyried ffactorau heblaw am y fantais economaidd syth. Gall hyn arwain at gostau uwch er mwyn talu am gynnyrch gwahanol, ond gellir lleihau neu ddileu'r effaith yn llwyr drwy bwrcasu mewn dull mwy creadigol (Ffigur 17), gan leihau defnydd drwy strategaethau ailgylchu a lleihau gwastraff ehangach, a newidiadau heb gostau i'r ffordd y darperir gwasanaethau. Gall caffael cynhaliadwy felly ganlyn mewn arbedion ariannol. Ymagwedd Menter Caffael Cymru yw cynyddu gallu busnesau bach a chanolig eu maint i ymateb i anghenion y sector cyhoeddus er mwyn iddynt allu cystadlu am fusnes yn fwy cyfartal. Yn gyffredinol mae rheoliadau caffael yn atal prynwyr cyhoeddus rhag ffafrio busnesau bach a chanolig eu maint neu fusnesau lleol yn amlwg wrth ddewis cyflenwyr, a byddai gwneud hynny yn golygu y gellir tanseilio gwerth am arian.

## PWYNTIAU ALLWEDDOL

**ar gaffael cynaliadwy**

- Mae datblygu cynaliadwy yn ddatblygiad eithaf diweddar ond mae'n adlewyrchu polisi pwysig gan Lywodraeth y Cynulliad.
- Nid oes gan sefydliadau bolisïau caffael cynaliadwy manwl ond mae sefydliadau unigol wedi gwneud cynnydd mewn meysydd penodol.
- Bydd gwaith datblygu polisi cyfredol gan Fenter Caffael Cymru yn cynnig fframwaith cyn bo hir y gall sefydliadau ei ddefnyddio i ddatblygu'r agenda cynaliadwyedd.

**Argymhellwn y dylai:**

- sefydliadau ystyried datblygu cynaliadwy yn eu strategaethau caffael a datblygu camau ymarferol i ddatblygu caffael cynaliadwy, yn seiliedig ar y canllawiau sydd ar gael ac arfer da.

# Gwella'r broses

## Gellir symleiddio prosesau i arbed amser ac arian

3.32 Maes posibl lle gellir arbed arian yw drwy leihau costau gweinyddol sy'n gysylltiedig â chaffael nwyddau a gwasanaethau. Fel arfer mae hyn yn cynnwys symleiddio gweithdrefnau a lleihau nifer y trafodion, gan arbed amser y staff. Dangosodd sawl sefydliad yr ymwelwyd â hwy ymwybyddiaeth o gwmpas arbedion gweinyddol drwy, er enghraifft, cydgrynhoi eu contractau gwastraff, canoli'r broses o gaffael deunydd ysgrifennu corfforaethol neu leihau nifer y cyflenwyr peiriannau llungopïo. Fodd bynnag, gellir gwneud yr arbedion gweinyddol mwyaf drwy gyflwyno prosesu electronig. Amlinellodd Gwell Gwerth Cymru brif fuddiannau e-fasnach fel a ganlyn:

- lleihau amser staff a chostau postio drwy gysylltu â chyflenwyr yn electronig;
- llai o achosion o anwybyddu contractau drwy reoli'r dewis o gynnyrch a chyflenwyr yn ganolog;
- prisiau is drwy drefnu contractau yn strategol;
- gwell gwybodaeth reoli a gwaith cyfrifyddu; a
- buddiannau amgylcheddol drwy leihau gwaith papur.

Yn ogystal, nid oes yn rhaid i staff ymgymryd â mwy o ddyletswyddau clerigol gan eu galluogi i gymryd rhan fwy rhagweithiol mewn gwaith caffael.

## Ychydig iawn o gynnydd a wneir ym maes e-gaffael yn y sector addysg uwch

3.33 Yn yr holl sefydliadau y gwnaethom ymweld â hwy, cydnabu'r rheolwyr caffael fuddiannau systemau prosesu mwy awtomataidd ac yn eu barn hwy y prinder systemau electronig a gwybodaeth reoli yw'r prif rwystrau i wella gwaith prosesu caffael. Ar hyn o bryd mae deg o sefydliadau yn ymgymryd â'r gweithgarwch caffael gyda phrosesau electronig a phapur. Yr enghraifft fwyaf datblygedig yw system caffael integredig UWIC lle gwneir archebion a'u hawdurdodi'n electronig. Mae catalogau electronig wedi'u rhoi ar y system a chaiff y gweithgarwch ei reoli'n ganolog, gan atal achosion o anwybyddu contractau. Mae'r system wedi bod o fudd gan arbed amser y staff a sicrhau'r

costau prosesu isaf posibl, gwella rheolaeth ariannol a gwella gwybodaeth reoli. Mae UWIC bellach yn bwriadu datblygu'r system er mwyn gallu ymgymryd â'r camau sy'n weddill o'r cylchred pwrcasu yn electronig o 2006, gan symud i e-gaffael yn gyfan gwbl. Nid oes gan unrhyw sefydliad arall gynlluniau cadarn i weithredu e gaffael yn llawn, ac roedd y rheolwyr caffael yr ymwelwyd â hwy o'r farn bod nifer rhy fach o gyflenwyr wedi datblygu systemau yn ddigonol i ganiatáu system electronig gynhwysfawr. Mae rhai sefydliadau yn gweithredu rhannau o'r cylchred caffael yn electronig, drwy archebion neu gatalogau electronig, ond, er eu bod yn cydnabod y buddiannau, nid oes ganddynt yr adnoddau na'r arbenigedd i weithredu e-gaffael yn llawn. Nodwn hefyd fod y Sefydliad Siartredig Pwrcasu a Chyflenwi yn argymell yn gryf y dylai sefydliadau feddu ar strategaeth gaffael a ddiffiniwyd yn dda cyn datblygu e-gaffael. O ystyried y diffygion presennol yn strategaethau'r rhan fwyaf o sefydliadau, mae angen i'r sector addysg uwch wneud cynnydd sylweddol yn y maes hwn cyn y bydd yn barod ar gyfer e-gaffael.

## Gellir gwneud arbedion cost drwy gardiau caffael

3.34 Cerdyn talu yw cerdyn caffael y gellir ei ddefnyddio i brynu nwyddau a gwasanaethau gan gyflenwyr sydd wedi cytuno i dderbyn taliad yn y ffordd hon ac sydd wedi'u hawdurdodi i wneud hynny. Anfonir anfoneb gyfunol gan y cwmni cerdyn a gaiff ei thalu gydag un taliad. Mae'n fodd o gaffael sy'n dileu'r angen i gynhyrchu dogfennaeth fel archebion neu brosesu anfonebau. Gall fod o fudd o ran arbed amser ac, felly, arbed arian yn enwedig wrth gaffael mân bryniadau sy'n cynrychioli mwyafrif yr archebion a wneir.




3.35 Argymhellodd *Gwell Gwerth Cymru* y dylai'r sector cyhoeddus yng Nghymru wella ei berfformiad ym maes taliadau a thrafodion gwerth isel, ac yn sgîl y gwaith a wnaed gan Fenter Caffael Cymru ar y cerdyn Caffael Cymraeg (gweler isod) daethpwyd i'r casgliad y gallai ei ddefnyddio arbed o leiaf £8 am bob trafodyn i sefydliadau. Fodd bynnag, nid yw'r defnydd o'r cerdyn caffael wedi'i ddatblygu eto yn y sector addysg uwch. Mae pum sefydliad yn defnyddio cardiau pwrcasu dros dro gyda phedwar arall yn ymchwilio i'w ddefnyddio. Er y gall y cerdyn gyflwyno buddiannau'n syth o ran cyflymder a chost trafodion a llai o risg o gamgymeriadau, prif bryder sefydliadau yw'r broses o reoli cardiau o'r fath, oherwydd bod diffyg rheolaethau awdurdodi ffurfiol ar bob cam o'r broses gaffael safonol yn gwneud eu defnyddio yn agored i dwyll. Fodd bynnag, gellir datblygu mesurau diogelwch priodol ac mae UWIC wedi cyflwyno cynllun peilot llwyddiannus o ran defnyddio cardiau caffael ar gyfer teithio a chynhaliaeth; byddant bellach yn cael eu defnyddio ar gyfer pob gwariant o'r fath drwy'r sefydliad. Gellir ystyried y defnydd o gardiau fel cyfle i leihau nifer y cyflenwyr ond bydd hyn yn dibynnu ar nifer y cyflenwyr sy'n derbyn cardiau o'r fath, sy'n lleiafswm ar hyn o bryd.

### PWYNTIAU ALLWEDDOL

**ar wella prosesau caffael**

- Nid yw'r defnydd o systemau electronig ym maes caffael addysg uwch wedi'i ddatblygu. Byddai cyflwyno systemau o'r fath yn arwain at fuddiannau sylweddol, gan gynnwys mwy o reolaeth dros y gweithgarwch pwrcasu a llai o gostau.

**Argymhellwn y dylai:**

- sefydliadau adolygu eu systemau prosesu gyda'r nod o awtomeiddio trafodion ar raddfa fwy lle bo hyn yn gost effeithiol.

# Atodiad 1

## Methodoleg

1 Defnyddiwyd amrywiaeth o ddulliau gennym i gasglu tystiolaeth ar gyfer yr astudiaeth hon. Archwiliwyd:

- canlyniadau ein harolwg o'r 13 o sefydliadau addysg uwch yng Nghymru;
- ffeiliau tendr a dogfennau caffael eraill yn y sefydliadau yr ymwelwyd â hwy;
- gwaith y ddau brif gonsortiwm pwrcasu a ddefnyddir gan sefydliadau yng Nghymru;
- y trefniadau ym mhob sefydliad ar gyfer rheoli'r gweithgarwch caffael;
- graddau'r arbenigedd sydd ar gael i'r sefydliadau;
- enghreifftiau penodol o arfer da mewn sefydliadau; a
- yr arbedion a gofnodwyd ar draws y sector.

2 Gwnaed y gwaith gennym mewn pum cam:

- arolwg o bob sefydliad;
- ymweliadau â hanner y sefydliadau yn y sector;
- gwaith yng Nghyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru;
- cyflogi asiantaeth, sef Purchasing Index (UK) Limited, i gynnal ymarfer meincnodi prisiau 'basged o nwyddau';
- defnyddio grŵp ffocws o bum rheolwr caffael cymwys yn y sector i roi eu barn ar ein canfyddiadau.

## Gwaith yn y Cyngor

3 Yn y Cyngor cyfwelwyd â staff ynghylch:

- monitro arferion caffael yn y sector; a
- eu cyfraniad tuag at wella caffael yn y sector Addysg Uwch.

## Ymweliadau â'r sefydliadau

4 Ymwelwyd ag Athrofa Prifysgol Cymru Caerdydd (UWIC), Prifysgol Cymru Abertawe, Prifysgol Cymru Caerdydd, Prifysgol Cymru Aberystwyth, Sefydliad Gogledd Ddwyrain Cymru a Choleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru i drafod materion mewn mwy o fanylder ac i nodi arfer da gan gyfeirio at astudiaethau achos. Mae'r sefydliadau hyn yn cyfrif am 56.6 y cant o wariant y sector nad yw'n wariant ar gyflogau (2002/03).

## Arolwg

5 Yn 2003-04 anfonwyd arolwg at bob sefydliad er mwyn cael y wybodaeth ddiweddaraf am arferion caffael y sector. Cafwyd ymatebion gan bob sefydliad.

## Ymarfer meincnodi

6 Cyflogwyd asiantaeth gennym sef Purchasing Index (UK) Limited i:

- gasglu data ar brisiau uned gan bob sefydliad ar gyfer sampl o gynnyrch defnyddiadwy cyffredin;
- cymharu'r prisiau hynny â'r prisiau cyfartalog uchaf ac isaf a'r prisiau cyfartalog yn seiliedig ar swm ar gyfer y sector cyfan ac ar gyfer pob tanysgrifiwr ar y gronfa ddata; a
- amcangyfrif arbedion posibl ar draws yr amrywiaeth o eitemau gan ddefnyddio'r data a gasglwyd.

Cafwyd ymatebion gan bob sefydliad.

## Grŵp Ffocws

7 Gofynnwyd i grŵp o bum rheolwr caffael yn y sector addysg uwch am eu barn ar:

- ein canfyddiadau;
- canlyniadau ein dadansoddiadau; a
- casgliadau posibl.

# 2 Atodiad

## Ymarfer cymharu prisiau ar gyfer cynnyrch defnyddiadwy

### Dull

1 Comisiynwyd Purchasing Index (UK) Ltd (PI) i gasglu data ar brisiau uned a dalwyd gan sefydliadau ar gyfer sampl o gynnyrch defnyddiadwy a'u cymharu â'r prisiau a dalwyd mewn rhannau eraill o'r sector cyhoeddus a'r sector preifat. Roedd hyn yn cynnwys:

- dewis sampl o eitemau ar draws bum categori o gynnyrch a bwrcasir yn aml. Manylwyd ar bob eitem er mwyn lleihau'r risg o wneud cymariaethau annilys, ond yn anochel roedd rhai gwahaniaethau yn bosibl o ran natur ac ansawdd y cynnyrch;
- anfon holiaduron at sefydliadau yn gofyn am wybodaeth am y pris a dalwyd ar gyfer y cynnyrch, swm arferol yr archeb, trefniadau dosbarthu (er enghraifft, i siop/storfa ganolog neu'n uniongyrchol i'r defnyddiwr), defnydd blynyddol, y math o gontract a ffactorau eraill sy'n debygol o effeithio ar y pris. Derbyniwyd ffurflenni gan bob sefydliad, yn seiliedig ar brisiau a oedd yn gymwys ym mis Ionawr 2004;
- dadansoddi'r data i gyfrifo sut yr oedd prisiau yn cymharu â'r prisiau isel, cyfartalog ac uchel ar gyfer y sector ac ar gyfer pob defnyddiwr ar gronfa ddata Pricetrak PI. 15 oedd canolrif y cymaryddion allanol ar gyfer pob cynnyrch, ac roedd gan y cynnyrch a ddefnyddiwyd fwyaf nifer uwch o gymaryddion yn gyffredinol. Pwysolwyd y cyfartaledd i adlewyrchu swm y cynnyrch a brynwyd am bob pris; a
- dehongli'r data, yn seiliedig ar y wybodaeth fanwl a roddwyd yn yr holiaduron ac mewn trafodaethau a gohebiaeth ddilynol gyda rheolwyr caffael, er mwyn nodi achosion posibl amrywiadau mewn pris o fewn a rhwng y sectorau.

2 Dewiswyd y sampl gan PI er mwyn cynrychioli proffiliau pwrcasu cynnyrch defnyddiadwy cymaint â phosibl. Fodd bynnag, mae sefydliadau'n amrywio'n sylweddol o ran yr amrywiaeth o gynnyrch a brynir ganddynt a cheir ystod enfawr o gynnyrch. Seiliwyd y ffurflenni ar gontractau canolog cymeradwy, felly maent yn hepgor gwariant anarferol a allai fod yn sylweddol mewn rhai sefydliadau. O ganlyniad, dim ond dynodi gweithgarwch pwrcasu pob sefydliad yn fras y gall y sampl ei wneud.

## Canfyddiadau

3 Cawsom ddata am brisiau 169 o eitemau, gyda chyfanswm gwariant blynyddol o tua £1.44 miliwn, yn cynrychioli tua £25 miliwn o wariant tebyg ar eitemau defnyddiadwy. Yn gyffredinol, roedd perfformiad y sector bron yr un peth â pherfformiad cyfartalog defnyddwyr eraill ar gronfa ddata Pricetrak. Fodd bynnag, roedd y canlyniadau yn amrywio'n fawr yn ôl categori, fel y dangosir isod.

4 Mae angen dehongli'r canlyniadau hyn yng nghyd-destun ffactorau eraill sy'n effeithio ar bris, oherwydd gall pris yn unig roi argraff gamarweiniol o'r arbedion posibl. Felly dadansoddwyd y data i nodi unrhyw batrymau prisio yn seiliedig ar yr amrywiadau y casglwyd data ar eu cyfer gan PI. Canolbwyntiwyd ar yr eitemau hynny â'r gwariant blynyddol mwyaf a'r cyfleoedd mwyaf ar gyfer arbedion tybiannol, pan aseswyd hwy yn erbyn y prisiau isaf a dalwyd o fewn y sector. Nodir ein prif ganfyddiadau, yn seiliedig ar y dystiolaeth oedd ar gael, isod.

| Categori cynnyrch | Gwariant blynyddol ar yr eitemau a samplwyd | Arbediad tybiannol (cost ychwanegol) fel % o'r gwariant blynyddol, pe byddai pob sefydliad wedi prynu am: | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Cyfartaledd pob defnyddiwr | Pris isel AUC | Pris isel pob defnyddiwr |
| Clyweledol | £5,924 | (37.08%) | 34.04% | 38.76% |
| Bwyd a diod | £329,393 | 7.02% | 9.84% | 23.39% |
| Cynnyrch defnyddiadwy TG | £228,404 | (12.78%) | 9.46% | 17.54% |
| Gofalwyr | £128,094 | 7.75% | 14.29% | 21.26% |
| Labordy | £20,596 | 2.18% | 9.26% | 12.98% |
| Deunydd ysgrifennu | £774,244 | 1.96% | 14.02% | 16.76% |
| **Pob cynnyrch** | **£1,486,655** | **1.16%** | **12.40%** | **18.77%** |

**NODER**

Yr arbediad tybiannol yw'r gwahaniaeth rhwng gwariant blynyddol y sampl (pris uned cyfartalog a dalwyd gan sector addysg uwch Cymru, a addaswyd ar gyfer y swm a bwrcaswyd gan bob sefydliad) a'r pris a fyddai wedi cael ei dalu pe byddai pob sefydliad wedi pwrcasu am y pris cyfartalog a addaswyd yn ôl swm ar gyfer cymaryddion allanol (cyfartaledd pob defnyddiwr), y pris isaf a nodwyd gan addysg uwch Cymru (pris isel AUC) a'r pris isaf a nodwyd gan bob cymharydd gan gynnwys addysg uwch Cymru (pris isel pob defnyddiwr).

## Roedd amrywiadau pris sylweddol o fewn y sector, gyda brand ac ansawdd yn ymddangos fel prif benderfynyddion pris

5 Roedd y prisiau ar gyfer y rhan fwyaf o gynnyrch yn amrywio'n sylweddol rhwng sefydliadau. Roedd prisiau'n amrywio o 810 y cant i ddim, gyda chanolrif o 28 y cant. Fel arfer y rheswm dros yr amrywiadau pris uchel oedd y ffaith bod un neu ddau sefydliad yn talu pris uchel iawn am gynnyrch nas defnyddiwyd yn aml, ac mae'r cynnyrch a ddefnyddir amlaf yn debygol o sicrhau gostyngiadau mwy ac felly prisiau is. Yn y rhan fwyaf o achosion roedd y gwahaniaethau mewn pris yn fwy cymedrol a'r rheswm pennaf drostynt oedd gwahaniaethau mewn brand neu ansawdd tybiedig, gyda defnyddwyr yn dewis cynnyrch a ffafriwyd ganddynt ac yn talu'r gost angenrheidiol o'u cyllideb. Nid oedd yn syndod bod brandiau cyllideb yn sylweddol rhatach ond nid oeddent yn cael eu defnyddio gan bawb. Cafwyd rhai gwahaniaethau sylweddol, fel y dangosir gan yr enghreifftiau isod:

- roedd y rhan fwyaf o sefydliadau yn prynu papur gradd C at ddefnydd safonol mewn argraffyddion laser a pheiriannau llungopïo, ond roedd rhai yn defnyddio papur o ansawdd gwell a oedd yn llawer drutach. Y pris ar gyfartaledd oedd £1.67 y rîm, yn unol â'r cyfartaledd ar gyfer cymaryddion allanol, ond roedd prisiau'n amrywio o £1.42 i £3.18 gyda phris mwyaf cyffredin yn £1.53 am bapur gradd C. Pe byddai pob sefydliad yn talu'r pris hwn, byddai'r sector cyfan wedi arbed tua £60,000;
- gwariodd un sefydliad £9.32 y litr ar sebon hylif, o gymharu â chyfartaledd o £2.71 y litr a dalwyd gan sefydliadau eraill am y cynnyrch, a byddai wedi arbed £9,100 y flwyddyn drwy ostwng y pris a dalwyd ganddo i'r lefel hon; a
- talodd dau sefydliad £3.63 am 100 o gartonau bach o laeth, tra bod y ddau arall a oedd yn prynu'r cynnyrch yn talu £1.73 drwy ddefnyddio brand amgen. Byddai'r ddau sefydliad gyda'i gilydd wedi arbed £7,800 y flwyddyn drwy brynu'r brand rhatach.

6 Serch hynny, golyga'r gwahaniaethau mawr mewn prisiau ei bod yn debygol y bydd rhywfaint o le i wneud arbedion drwy safoni cynnyrch a phrynu cynnyrch yn rhatach, er y gallai hyn gynnwys dewis cynnyrch o ansawdd is mewn rhai achosion.

## Gall ffactorau eraill effeithio ar bris, ond ni cheir patrwm clir

7 Yn gyffredinol nid oedd unrhyw gysylltiad amlwg rhwng pris uned a defnydd blynyddol, swm yr archeb neu drefniadau dosbarthu. Mae'n anodd datgrynhoi effaith pob ffactor ar bris ac mae'n debygol y cuddiwyd rhai gwahaniaethau gan wahaniaeth mwy hydreiddiol o ran brandiau neu ansawdd arbennig a ffafriwyd gan y defnyddiwr. Er enghraifft, mae cyflenwyr yn codi llai am ddosbarthu symiau mawr o bapur i storfa ganolog o gymharu â dosbarthu symiau llai yn uniongyrchol i'r defnyddiwr (er na restrir costau storio a dosrannu'r storfeydd canolog yn yr ymarfer hon). Nododd Prifysgolion Aberystwyth a Bangor fod eu lleoliadau yn anfantais wrth sicrhau prisiau is, am mai dewis cyfyngedig o gyflenwyr sydd ganddynt ar gyfer rhai cynnyrch, yn enwedig bwyd darfodus.

8 Yn gyffredinol, awgryma'r dystiolaeth fod consortia wedi bod yn llwyddiannus wrth negodi contractau hyblyg nad ydynt yn anfantais i sefydliadau llai o faint sy'n prynu symiau llai, ac sydd wedi galluogi sefydliadau i gau eu storfeydd canolog neu eu lleihau'n sylweddol er mwyn osgoi'r costau dilynol o ran adeiladau a dosbarthu.

## Gwahaniaethau rhwng sefydliadau a chategorïau cynnyrch

9 Gwnaed o leiaf 90 y cant o'r gwariant a gwmpaswyd gan y sampl drwy gonsortia pwrcasu, ac roedd eu prisiau ychydig yn well na'r rhai a dalwyd drwy gontractau unigol a phryniadau ar hap. Nid oedd patrwm clir gyda phryniadau nas gwnaed drwy gonsortia, gydag amrywiaeth o brisiau da, cyfartalog a gwael drwy gontractau unigol a phryniadau ar hap.

10 Roedd gwahaniaethau sylweddol rhwng categorïau cynnyrch. Prynodd y sector cyfan gynnyrch clyweledol a chynnyrch TG defnyddiadwy am brisiau a oedd llawer yn is na'r cyfartaledd, drwy gytundebau cenedlaethol yn bennaf, ond talwyd tua saith y cant yn fwy am gynnyrch bwyd a gofalu. Mae'n bosibl mai'r rheswm am hyn yw'r symiau llai a archebir gan sefydliadau o gymharu ag, er enghraifft, defnyddwyr uchel iawn fel ymddiriedolaethau GIG. Roedd prisiau deunydd ysgrifennu a labordai yn unol â'r cyfartaledd.

11 Roedd gwariant pob sefydliad ar y cynnyrch a samplwyd yn amrywio o 93 y cant i 116 y cant o'r cyfartaledd ar gyfer y sector cyfan. Mae defnyddio'r ffigur pennawd hwn i fesur perfformiad pwrcasu yn broblematig, oherwydd mae'n cuddio effaith ystod eang o ddylanwadau ar bris nad ydynt o fewn rheolaeth y gweithgarwch pwrcasu yn gyfan gwbl, yn enwedig ansawdd neu frand arbennig o gynnyrch a ffafriwyd gan y defnyddiwr. Nid oedd cysylltiad sylweddol rhwng y cyfle i wneud arbedion tybiannol a maint sefydliad neu bresenoldeb rheolwr caffael penodedig. Mae hyn yn cefnogi'r ddadl bod consortia pwrcasu wedi bod yn effeithiol wrth drosglwyddo buddiannau contractau ar y cyd i sefydliadau llai o faint, sydd felly yn elwa'n anuniongyrchol ar yr arbenigedd sydd ei angen i negodi a monitro'r contractau hyn; fe'i darperir fel arfer gan arbenigwyr caffael yn y sefydliadau mwy o faint. Fodd bynnag, gall arbenigwyr caffael o fewn sefydliadau sicrhau bod y contractau consortiwm yn cael eu defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol a bod meysydd nas cwmpesir ganddynt yn cael eu cwmpasu'n briodol gan drefniadau lleol.